PAPUR BRO GENAU'R-GLYN, MELINDWR, TIRYMYNACH, TREFEURIG A'R BORTH

# y tincer

85c | Rhif 483 | Tachwedd 2025






**Penodiad Sara**

t.12

**Codi dros £1900 tuag at MND**

t.6




# HWYL YR ŴYL



Parti cerdd dant Ysgol Penweddig ddaeth yn drydydd yn y parti cerdd dant uwchradd.



Parti cerdd dant Ysgol Rhydypennau ddaeth yn drydydd yn y parti cerdd dant cynradd.



Osian Rowlands a Gavin Ashcroft o Bontypridd ac Aled Myrddin, Bow Street – buddugol yn y gystadleuaeth deuawd/triawd cerdd dant Bl 12 a throsodd.

## Cywydd Croeso

Ni bu Dachwedd heb duchan
Oer y gwynt yn mygu'r gân;
Ni bu hirlwm heb erlid
Gemau lliw gan gwmwl llid;
Heb awen, ni bu aeaf
Na ddaeth â hiraeth am haf.

Ni bu Aber nas heriwyd
Gan dwrw'r penllanw llwyd
Yn boddi'r tir, fesul ton
Farus, a'r dyddiau'n fyrion,
A stormydd newydd yn hel
Yn gerrynt dros y gorwel.

Ond daw'r awen eleni,
Bwrw'n ôl wna'n Haber ni.
A down, un haid ohonom,
Parhawn, fel drudwns y Prom,
Â hud y ddawns, doed a ddêl,
A hi'n Dachwedd, rhaid dychwel –

Troi'r rhod â thafod a thant,
Ac i felys gyfeiliant
Neuadd lawn, fe gawn i gyd
Ailfeddu'r hen gelfyddyd.
Trown Dachwedd yn rhyfeddod
Hirddydd haf – mae'r Ŵyl ar ddod!
**Huw Meirion Edwards**



Drudwns Aber ddaeth yn 2il yn y Parti Llefaru dros 12 oed – coleg, aelwyd ac agored



Parti'r Greal, Aberystwyth (hyfforddwraig: Meinir Edwards, Llandre) cyntaf ar y parti cerdd dant agored ac ail ar y parti alaw werin agored

GWELER HEFYD T. 12

# y tincer

**Sefydlwyd Medi 1977**
**Aelod o Fforwm Papurau Bro Ceredigion**

**ISSN 0963-925X**



**GOLYGYDD – Ceris Gruffudd**
Rhos Helyg, 23 Maesyrefail, Penrhyn-coch
☎ 828017 | YTincer@googlemail.com
**TEIPYDD – Iona Bailey**
**CYSODYDD – Elgan Griffiths** ☎ 07737 622034
**GADEIRYDD Y TINCER – Richard Owen**
31 Glan Ceulan, Penrhyn-coch ☎ 07939 652273
**IS-GADEIRYDD A THREFNYDD CYFEILLION – Bethan Bebb**
Penpistyll, Cwmbrwyno, Goginan ☎ 880228
**YSGRIFENNYDD – Lynwen Evans**, Llawr y Glyn, Lôn Glanfred, LlandreSY24 5BY
☎ 01970 822322
Ebost: levans100@btinternet.com
**TRYSORYDD – Hedydd Cunningham**
Tyddyn-Pen-y-Gaer, Llandre, Aberystwyth
☎ 07910 720422
hedyddcunningham@live.co.uk
**HYSBYSEBION – Cêt Morgan**
Fferm Glanfrêd, Lôn Glanfrêd, Llandre SY24 5BY
cetmorgan@icloud.com 07966 510195
**TASG Y TINCER – Anwen Pierce**
3 Brynmeillion, Bow Street, SY24 5BP
**ADOLYGIADAU LLYFRAU**
**Llinos Dafis**, Cedrwydd, Llandre
**TREFNYDD GWERTHIANT – Lila Piette**
Llys Hedd, Bow Street ☎ 820223

**TINCER TRWY'R POST –**
**Edryd ac Euros Evans**, 33 Maes Afallen
Bow Street

**ABER-FFRWD A CHWMRHEIDOL**
**Mrs Beti Daniel**
Glyn Rheidol ☎ 880 691
**Y BORTH – Esther Prytherch** ☎ 07968 593078
**BOW STREET**
**Mrs Mair Lewis**, 40 Maes Ceiro ☎ 828 102
**Anwen Pierce**, 3 Bryn Meillion ☎ 828 337
**Maria Owen**, Gerddi Gleision ☎ 822074
**CAPEL BANGOR / PEN-LLWYN**
**Heulwen Lewis**, Deiniol, Capel Bangor
☎ 880413 heulwenlewis@btinternet.com
**CAPEL MADOG, CEFN-LLWYD A CAPEL DEWI**
**Eirian Hughes**, Lluest Fach ☎ 880 335
**Elwyna Davies**, Tyncwm ☎ 880 275
**Dei Evans**, Fferm Fronfraith, Comins-coch
☎ 623 660
**DÔL-Y-BONT**
**Mrs Llinos Evans** – Dôlwerdd ☎ 871 615
**DOLAU**
**Mrs Margaret Rees** – Seintwar ☎ 828 309
**GOGINAN**
**Mrs Bethan Bebb**
Penpistyll, Cwmbrwyno ☎ 880 228
**LLANDRE**
**Mrs Nans Morgan**
Dolgwiail, Llandre ☎ 828 487
**PENRHYN-COCH**
**Mairwen Jones** – 7 Tan-y-berth ☎ 820 642
**TREFEURIG**
**Mrs Edwina Davies**
Darren Villa, Pen-bont Rhydybeddau ☎ 828 296



CYMRAEG Ariennir y Tincer yn rhannol gan Lywodraeth Cymru.


# dyddiadur

**Rhifyn Rhagfyr: Dyddiad cau** Rhagfyr 5; **Dyddiad cyhoeddi** Rhagfyr 17

**TACHWEDD**

19 Nos Fercher Meinir Howells Cymdeithas y Penrhyn yn Horeb, Penrhyn-coch am 7.30

19 Nos Fercher Bara Caws yn cyflwyno 'Llanast!' (Yasmina Reza) yn Arad Goch am 7.30

20 Dydd Iau Sesiwn ac arddangosfa prosiect 'Creu Lle Ceredigion' yn Neuadd Rhydypennau o 12.00-7.00.. Manylion llawn ar wefan Cyngor Ceredigion. Croeso cynnes i bawb.

20 Dydd Iau Llunio lle yn Rhydypennau yn Neuadd Rhydypennau o 12.00-7.00. Am fwy o wybodaeth gweler www.creu-lle-ceredigion.cymru

21 Nos Wener Noson yng nghwmni Georgia Ruth Cymdeithas Lenyddol y Garn am 7.30

26-27 Dyddiau Mercher a Iau Cwmni Mega yn cyflwyno Brenin March yng Nghanolfan y Celfyddydau am 10.30 a 12.30. Tocynnau o tocyn@cwmnimega.cymru

29 Bore Sadwrn Bore coffi, te a chacen i ddathlu'r Nadolig; stondin danteithion tymhorol yn Neuadd yr Eglwys, Penrhyn- coch o 10.00-11.30.

29 Bore Sadwrn Bore Coffi'r Adfent yn festri Capel y Garn, 10.00 – 12.00. Derbynnir rhoddion ariannol tuag at y banc bwyd lleol – Stordy'r Jiwbilî. Trefnir gan Chwiorydd y Garn.

**RHAGFYR**

2 Nos Fawrth. Goleuo coeden Nadolig Bow Street ger capel y Garn am 6.45pm. Carolau yng nghwmni plant Ysgol Rhydypennau a lluniaeth ysgafn yn y neuadd. Croeso cynnes i bawb.

3 Dydd Mercher Llunio lle ym Mhenrhyn-coch yn Horeb, Penrhyn-coch o 12.00-7.00. Am fwy o wybodaeth gweler www.creu-lle-ceredigion.cymru

4 Dydd Iau Goleuo goleuadau Nadolig y Borth- amser i'w gadarnhau. Trefnir gan RNLI

5 Nos Wener Bingo Nadolig yn Neuadd y Penrhyn i godi arian i Ysgol Penrhyn-coch; drysau'n agor 6.30; llygaid i lawr 7.00 Bingo plant £2 Bingo oedolion £10 Arian yn unig os gwelwch yn dda.

6 Dydd Sadwrn Cwrdd â Siôn Corn yn Ffair Elusen Nadolig y Borth yn Neuadd Gymunedol y Borth o 10.00-13.00. £3.00

9 Bore Mawrth Bore coffi er budd Ymchwil Canser Cymru yn Neuadd y Penrhyn o 10.00-12.00 . Stondin gacennau a nwyddau Nadolig. Mynediad : £5 yn cynnwys paned, raffl a chacen.

13 Bore Sadwrn Ffair Nadolig Plaid Cymru Gogledd Ceredigion ym Morlan o 11.00-13.00.

14 Nos Sul Cyngerdd Nadolig Côr ABC yn Eglwys Llanbadarn am 7.30. Dewch yn llu!

16 Nos Fawrth Atgof o'r sêr (Robat Arwyn): cyngerdd Nadolig Gwasanaeth Cerdd Ceredigion gyda John Ieuan Jones a Gwawr Edwards, Merched Soar, Côr Cardi-gan, Sgarmes, Cerddorfa Hŷn a Iau Cerdd Ceredgion a Band Pres Gwasanaeth Cerdd Ceredigion yn y Neuadd Fawr am 7.00. Tocynnau: plant £8.50, person hŷn: £12; oedolyn £15.

18 Nos Iau Plygain Penrhyn-coch dan nawdd Cymdeithas y Penrhyn yn Eglwys St Ioan am 7.00

19 Dydd Gwener Ysgolion Ceredigion yn cau am wyliau'r Nadolig

19 Nos Wener Dathlu'r Nadolig gyda Sian James Cymdeithas Lenyddol y Garn am 7.30

## Cyfeillion Y Tincer

Dyma fanylion enillwyr Cyfeillion y Tincer mis Medi 2025

**£25** (Rhif 86) Morris Morgan
**£15** (Rhif 190) Meinir Roberts
**£10** (Rhif 36) Ceris Gruffudd

Cofiwch os ydych yn aelod o'r cyfeillion ac yn newid enw neu gyfeiriad plis rhowch wybod i'r trefnydd Bethan Bebb 01970880228 neu ar ebost bethanbebb162@gmail.com

Diolch o galon am y rhai sydd wedi newid eu harcheb banc yn barod ac hefyd rhai wedi cynyddu y swm. Cofiwch fod rhaid gwneud y newid cyn diwedd Rhagfyr. Diolch eto.

## 30 mlynedd yn ôl



Gwasanaeth diolchgarwch Ysgol Trefeurig (o'r Tincer Tachwedd 1995)

**Fforwm Papurau Bro Ceredigion**
Bu'r Golygydd yng nghyfarfod Fforwm Papurau Bro Ceredigion nos Lun 13 Hydref yn Neuadd Felin-fach. Mae'r Fforwm wedi cyfrannu gwobr o £100 i un o gystadlaethau'r Adran Farddoniaeth yn yr Ŵyl Gerdd Dant – yr un dan 25 oed – Cerdd ar y testun 'Cyfle' (hyd at 16 llinell). Cafwyd trafodaethau diddorol yn y cyfarfod gan gynnwys y defnydd o A1. Bydd y cyfarfod nesaf ar 13 Hydref.

**Ymddiriedolaeth y Gofeb Rhyfel**
Ers ei chreu, mae cronfa Ymddiriedolaeth Cofeb Ryfel Aberystwyth wedi cefnogi llawer o unigolion a grwpiau mewn sawl maes, gan gynnwys chwaraeon a'r celfyddydau.

Y dyddiad cau ar gyfer y ceisiadau nesaf yw 21/11/2025 gyda ffurflenni cais ar gael trwy e-bostio: aberwarmemorialtrust@gmail.com. Gallwch e-bostio ceisiadau i'r un cyfeiriad, neu fynd â ffurflenni cais i swyddfeydd Morris & Bates, Cyfreithwyr, Ffordd Alecsandra, Aberystwyth.

Noson gyda Steve Eaves a Rhai Pobl yng Nghanolfan Arad Goch
**IONAWR 31 nos Sadwrn am 7.30**
Yr elw i gyd at Gymorth Meddygol i Balesteiniaid /MAP
Tocynnau: £15 i'w cael o Arad Goch, Siop Inc neu gan Gwenan Creunant.

Annwyl drigolion ardal y Tincer,
**Diweddariad Ffrindiau Cartref Tregerddan**
Mae'n siŵr eich bod yn ymwybodol bellach bod y Cyngor Sir wedi cau Cartref Tregerddan gan ail leoli'r trigolion i adain yn Hafan y Waun, Aberystwyth. Mae'n drist ei fod wedi dod i hyn ond diolchwn i bawb yn y gymuned am eu hymdrechion i gefnogi Cartref Tregerddan dros y blynyddoedd.

Sefydlwyd Ffrindiau Cartref Tregerddan dros 50 mlynedd yn ôl gan godi degau o filoedd o bunnoedd er lles y trigolion – cymeriadau o'n hardal, yn bennaf. Mae gweithgaredd y Ffrindiau yn ystod y cyfnod hwn wedi cyfrannu'n sylweddol at ansawdd bywyd y trigolion, a rhaid diolch i'r holl rai fu'n aelodau o'r Ffrindiau am eu cyfraniad gwirfoddol a di-flino.

Yn naturiol, yn sgîl y penderfyniad i gau, mae'r Ffrindiau hefyd wedi penderfynu dod â'u gweithgareddau hwy i ben. Cytunwyd i ddosbarthu'r arian sy'n weddill i'r pum Cyngor Cymuned yn yr ardal oedd yn cefnogi'r Ffrindiau, sef Cynghorau Cymuned Ceulanamaesmawr, Genau'r Glyn, Tirymynach, Trefeurig a Melindwr.

Mae'r arian sydd ar gael naill ai wedi'i roi gan y trigolion a'u teuluoedd, wedi'i godi yn y barbeciw a'r te blynyddol, neu wedi'i roi gan sefydliadau eraill gan gynnwys y cynghorau cymuned. Rhoddwyd yr arian yn gyfan gwbl er budd yr henoed yng Nghartref Tregerddan. Er mwyn bod yn gyson â'r ysbryd hwnnw, 'rydym wedi gofyn i'r cynghorau cymuned ddefnyddio'r arian er budd yr henoed yn eu hardal. Mae'n braf nodi eu bod oll yn barod i wneud hyn.
Gobeithio yn wir y bydd trigolion cartrefi'r Cyngor Sir yn cael yr un gofal arbennig a ddarparwyd ar hyd y blynyddoedd gan staff Cartref Tregerddan. Hoffwn ar ran Ffrindiau Tregerddan ddiolch i'r staff hynny am eu gwaith tyner.
Yr eiddoch yn gywir

Penri James
Cadeirydd Ffrindiau Tregerddan

### RHODDION

Cydnabyddir yn ddiolchgar y rhoddion isod. Croesewir pob cyfraniad boed gan unigolyn, gymdeithas neu gyngor.

**Cyngor Cymuned y Borth £100**
**Dewi Hughes a Bryn Roberts £4**

## Cymdeithas Aredig Gogledd Ceredigion yn codi £500

Mae Cymdeithas Aredig Gogledd Ceredigion, a sefydlwyd ym 1961, yn trefnu cystadlaethau aredig a phlygu gwrychoedd blynyddol i helpu i annog aredig a phlygu gwrychoedd.

Dywedodd Phyllis Harries, Ysgrifennydd: "Er na chynhaliwyd her benodol gennym, dros y blynyddoedd mae'r pwyllgor wedi codi arian trwy amrywiol ddigwyddiadau i gefnogi ein cystadleuaeth flynyddol.

"Codwyd arian gennym ar y cyd â phwyllgor y Sir i gynnal Pencampwriaeth Cymru yn 2023. Yn ein cyfarfod pwyllgor blynyddol, penderfynwyd yn unfrydol rannu'r elw o gynnal cystadlaethau dros y blynyddoedd gydag elusennau lleol.

"Eleni, cynhaliwyd y gystadleuaeth yn Nhal-y-bont diolch i haelioni teuluoedd Cynnullmawr a Neuaddfawr. Penderfynwyd rhoi'r elw i Uned Cemotherapi Bron-glais oherwydd ein bod yn gwerthfawrogi pwysigrwydd cael yr adnodd hwn yn lleol."



# Penrhyn-coch

**Oedfaon Horeb**

*Tachwedd*

23 2.30 Judith Morris

26 Bore Mercher 10.30 Bore Coffi Bethel Tal-y-bont (Cyfres yr Adfent)

30 2.30 Hywel Davies

*Rhagfyr*

7 2.30 Peter Thomas Oedfa gymun

10 10.30 Bore Mercher Bore Coffi- Horeb Penrhyn-coch (Cyfres yr Adfent)

14 10.30 Peter Thomas

21 2.00 Oedfa Nadolig Horeb

25 9.00 Oedfa fore Nadolig

28 I'w threfnu

**Clwb Sul – 10.30**

*Tachwedd*

16 Clwb Sul

23 Clwb Sul

*Rhagfyr*

14 Clwb Sul

21 Gwasanaeth Nadolig

**Genedigaeth**

Llongyfarchiadau i Huw a Melanie Evans, 52 Ger-y-cwm, ar enedigaeth merch fach – Ffion Ann Mary ar 11 Hydref. Da deall fod Huw adref ar ôl cyfnod yn yr ysbyty.

**Dyweddiad**


Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Sioned a Steffan, Rhos Helyg, Gogerddan ar eu dyweddiad ar 3ydd o Fedi yn Phuket, Gwlad Thai.

SIOP
SGIDIAU GWDIHW
8 Ffordd Portland, Aberystwyth SY23 2NL
01970 617092
Shan ac Alys Jones
GWASANAETH
GOFAL TRAED
Ceiropodyddion /podiatryddion graddedig ac wedi cofrestru efo'r
MRCPod

**Cymdeithas y Penrhyn**

Croesawodd ein Cadeirydd Llinos Dafis nifer da o aelodau i Gapel Horeb am ail gyfarfod y tymor ar 15 fed. Hydref. Dywedodd fod ein siaradwr gwadd yn nodedig oherwydd ei eni ar Ynys Enlli. Cyflwynodd Iestyn Tyne gan ddweud ei fod yn llenor a enillodd Goron a Chadair, yn gerddor sy'n aelod o ddau fand gwerin a hefyd yn gyfieithydd ac artist.

Dywedodd Iestyn mai Prosser Rhys fyddai pwnc ei sgwrs a'i fod yn gobeithio egluro'r cefndir i'w Bryddest "Atgof" a oedd yn bwnc llosg ar ôl ennill y Goron yn Eisteddfod Genedlaethol Pont-y-pŵl yn 1924. Esboniodd fod yr hanes wedi cydio ynddo pan ysgrifennodd draethawd estynedig am Prosser Rhys wrth astudio'r Gymraeg ym Mhrifysgol



Aberystwyth. Teimlai gysylltiad ag ef oherwydd ei fod wedi cerdded yr un strydoedd â'r bardd cynharach yn Aberystwyth ac yng Nghaernarfon Felly ymchwiliodd ymhellach a chyhoeddodd lyfr *"Y Cyfan a fu Rhyngom Ni - ar Lwybrau 'Atgof' Prosser Rhys".* Dangosodd inni lun o ffilm Pathé News o Seremoni'r Coroni yn 1924 gan ddweud bod y llun wedi'i ysbrydoli wrth ddechrau ysgrifennu.

Mae'n dangos dau ddyn o'r un enw ond yn annhebyg iawn i'w gilydd oherwydd cafodd Iorwerth Dywysog (Edward VIII i fod) ei urddo i'r Orsedd ar yr un diwrnod â choroni Edward Prosser Rhys. Pwysleisiodd Iestyn ddewrder Prosser Rhys wrth gynnig gwaith yn sôn am bynciau a ystyriwyd yn annymunol pryd hynny gan gynnwys tlodi, anghydfod rhwng gŵr a gwraig, rhyw a chariad rhwng dau ddyn. Dywedodd nad oedd Prosser wedi disgwyl ennill, yn enwedig o ystyried bod dau weinidog ymhlith y beirniaid. Diolchodd Llinos i Iestyn am sgwrs addysgiadol gan ddweud bod yr aelodau wedi mwynhau gwledd. Manteisiodd nifer o aelodau ar y cyfle i gynnal trafodaeth gyda'r siaradwr dros baned a bartowyd gan Wendy a Glenys.

**Llyfr newydd yn ailddehongli gwaith bardd gorau Cymru**

Bydd cyfrol newydd o gerddi byrion gan academydd o Aberystwyth yn cynnig dehongliad newydd o waith un o feirdd mwyaf nodedig Cymru. Mae'r cerddi Saesneg sydd newydd eu cyhoeddi am y tro cyntaf dan y teitl *The Green Month* yn dathlu testunau Dafydd Ap Gwilym, bardd gorau Cymru yn ôl llawer. Wedi'i eni yng Ngheredigion ar ddechrau'r 14eg ganrif, fe'i gydnabyddir fel un o feistri'r mesur caeth, y cywydd, ac un o feirdd pwysicaf Ewrop yn ei gyfnod. Mawr yw'r clod i farddoniaeth ap Gwilym gyda'i themâu o gariad, chwant a byd natur a gyflëir drwy gyfrwng ieithwedd ddi-flewyn-ar-dafod a ffraethineb heb-ei-ail. Nod y llyfr newydd, *The Green Month* a ysgrifennwyd gan yr Athro Matthew Francis o Brifysgol Aberystwyth, yw cynnig bywyd newydd i gyfansoddiadau hynafol yr awdur ar gyfer y darllenydd Saesneg modern.



**Ennill gwobrau**

Llongyfarchiadau i Lowri Emlyn ar ddod yn ail am gerdd hyd at 40 llinell ar y testun – Aber yn yr Ŵyl Gerdd Dant.

Llongyfarchiadau calonog i Nicola Griffiths, Ger-y-llan ar ennill gwobr Rhagoriaeth Manwerthu gan Menter Aberystwyth. Ar ôl treulio dros 30 mlynedd yn Awstralia a Seland Newydd mae Nicola wedi dychwelyd i'w chynefin ac ymgartrefu ym Mhenrhyn-coch. Dysgodd ei hun i grefft llaw o wneud cysgodion lampau a mentro rhedeg ei busnes yn Stryd y Porth Bach yn Aberystwyth. Dymunwn bob llwyddiant iddi yn y dyfodol.





Llongyfarchiadau i Emma Healy, o Feithrinfa Gogerddan - enillydd y categori 'Arweinydd' yng nghystadleuaeth Mudiad Meithrin



John Evans, PC Hannah a'r Cynghorydd Caryl Roberts yn dilyn gwasanaeth cyfarfod Gwarchod y Cyhoedd



Caryl Roberts yng nghwmni Llywydd - Mel Evans a Chadeirydd - Martin Harries Clwb Pêl-droed Penrhyn-coch yn y cinio er mwyn codi arian ar y Clwb yng nghwmni y cyn chwarewr pêl-droed Jan Mølby gynt o Lerpwl a Denmarc.



Brownies Penrhyn-coch a Rainbows yn dilyn gwasanaeth Sul y Cofio

**Sêl cist car dan do**
Oherewydd diffyg diddordeb canslwyd gweddill y sesiynau yma oedd i'w cynnal ar brynhawniau Gwener ym mis Tachwedd.

**Pryd y Gymuned**
Pryd nesaf y Gymuned fydd te prynhawn dydd Mercher Rhagfyr 17 yn Neuadd y Penrhyn am 13.00. Os am fynychu cysylltwch â Eileen Rowlands ar 01970 820390

**Cydymdeimlad**
Cydymdeimlwn â Chris a Sharon Wilson, a'r bechgyn, Dôl Helygn, ar farwolaeth mam Chris.

**Ennill cwis**
Llongyfarchiadau i dîm Merched y Wawr Penrhyn coch sydd wedi llwyddo yn arbennig i ddod yn ail yng nghwis Cenedlaethol Merched y Wawr. Yr aelodau yw Glenys Morgan, Eleri James, Wendy Reynolds a Miriam Garratt.



## Pêl-Droed Penrhyn-Coch

**Tîm 1af**
**Cynghrair**
*Hydref*
11 Tref Treffynnon 4 Penrhyn-coch 1
**Cwpan Cymru JD**
CPD Llannefydd 1 Penrhyn-coch 1
(Penrhyn-coch yn ennill ar giciau o'r smotyn)

**Cynghrair**
*Hydref*
25 Penrhyn-coch 1 Mynydd Fflint 4

*Tachwedd*
1 CPD Y Rhyl 1879 3 Penrhyn-coch 1
8 Brickfield Rangers 4 Penrhyn-coch 1


**Eilyddion**
**Cynghrair**
*Hydref*
4 Dyffryn Banw 0 Penrhyn-coch 0
(gohiriwyd ar ôl 41 munud oherwydd tywydd)
11 Penrhyn-coch 5 Dyffryn Banw 0
18 Cwpan Canolbarth Cymru Emrys Morgan
Penrhyn-coch yn erbyn Trewern - gohiriwyd
21 Rhaeadr 1 Penrhyn-coch 3
25 Bont 1 Penrhyn-coch 0

*Tachwedd*
**Cwpan Cynghrair Canolbarth Cymru**
Penrhyn-coch 0 Tyrffs Tregaron 5
7 Gohiriwyd y gêm yn erbyn ail dîm Aberystwyth

## Dôl-y-bont

**Gyrwraig newydd**
Llongyfarchiadau i Tirion Sedgewick, Tynsimdde ar basio ei phrawf gyrru yn ddiweddar. Da iawn Tirion.

inc
Amrywiaeth eang o lyfrau, cardiau, cerddoriaeth ac anrhegion Cymraeg.
CROESAWIR ARCHEBION GAN UNIGOLION AC YSGOLION
13 Stryd y Bont, Aberystwyth
01970 626 200

Gwe Cambrian Web
Cwmni lleol o Aberystwyth sydd yn creu gwefannau dwyieithog a gwasanaethau marchnata digidol ar gyfer busnesau bach a mudiadau.
Cysylltwch heddiw!


Gwe Cambrian Web
cambrianweb.com | 01970 623 906 | info@cambrianweb.com | @gwecambrianweb

# Dolau

**Codi dros £1900**

Llongyfarchiadau i Bethan Rees, gwraig Euryl, gynt o Seintwar, a gymerodd ran yn Marathon Eryri yn ddiweddar. Llwyddodd i gwblhau'r marathon mewn ychydig dros bedair awr ac yn y cyfamser wedi llwyddo i godi dros £1900 tuag at elusen Clefyd Motor Neurone (MND).



**Penodiad**

Llongyfarchiadau i Elen Mai Nefydd a benodwyd yn Ddirprwy Is-Ganghellor Cysylltiol newydd dros y Gymraeg, Diwylliant a Threftadaeth Prifysgpl Wrecsam.

"Mae'n anrhydedd i mi ymgymryd â'r rôl hon, sy'n cynrychioli cam pwysig yn ein hymrwymiad i'r Gymraeg a'i diwylliant," meddai Elen Mai. "Rwy'n edrych ymlaen at y bennod newydd hon wrth i ni wireddu ein gweledigaeth a'n strategaeth."



# Cyngor Cymuned **Tirymynach**

Yn y cyfarfod ar 22 Hydref, dyma rai o'r materion a drafodwyd:

- Coeden Nadolig – bydd coeden y pentref yn cael ei gosod ger capel y Garn yn cael ei goleuo ar 2 Rhagfyr, 6.45 gyda charolau yng nghwmni plant yr ysgol a lluniaeth yn y neuadd. Diolch ymlaen llaw i bawb fydd ynghlwm â'r digwyddiad.
- Prosiect 'Creu Lle Ceredigion' – dewiswyd Bow Street i fod yn rhan o'r prosiect cyffrous. Bydd sesiwn i'w drafod yn y neuadd ar 20 Tachwedd (12 tan 7pm). Croeso i bawb – dewch â syniadau sut i wella'n cymuned. Mae manylion llawn ar wefan y cyngor sir.
- Roedd yn braf croesawu cynghorydd newydd – Richard Gethin. Mae croeso mawr i rywun arall ymuno hefyd.
- Parc Bryncastell – mae'r gwaith adnewyddu, gan gynnwys codi ffensys newydd, yn parhau, a bydd bin yn cael ei osod ger y parc.
- Cofiwch fod modd nodi problem, cwyn neu sylw drwy wasanaeth Clic ar wefan Cyngor Cerdigion. Mae'n bwysig defnyddio hwn.
- Gŵyl Ddewi – gobeithio bod modd i'r cyngor cymuned wneud cais am grant i gynnal digwyddiadau yn y dyfodol; daeth gwybodaeth am gronfa gymorth Llywodraeth Cymru.
- Ceisiadau am grant – cofiwch fod y cyngor yn croesawu ceisiadau ac mae modd cyflwyno cais rhwng nawr '25 a 18 Ionawr '26, felly ewch amdani! Cofiwch gynnwys mantolen eich clwb/cymdeithas gyda'r cais.

Cyfarfod nesaf: 26 Tachwedd, 6.30pm, Neuadd Rhydypennau. Croeso cynnes i chi – cysylltwch â'r clerc os am fynychu.

RHYD-Y-PENNAU

COGINIO CARTREF
CHWARAEON BYW . COFFI
01970 867 888




Probert & Williams
eye care

Eich optegwyr annibynnol lleol

Archwiliadau GIG a phreifat
Sbectol a sbectol haul
Lensys cyffwrdd
Gofal llygaid brys
Llygaid sych

15 Stryd y Popty,
Aberystwyth
01970 611555
www.probertandwilliams.co.uk



# Llandre

**Dod i adnabod mam a merch**

Grym geiriau a gwreiddiau oedd yn amlwg yn ail noson Cymdeithas y Morfa, Aberystwyth, fis Hydref wrth iddynt ddod i adnabod mam a merch – Llinos Dafis a Gwenllian Grigg – yn well. Heb os, mae Ceredigion yn hynod o bwysig i'r ddwy wrth i Llinos gael ei magu yn Bow Street a Gwenllian yn Nhalgarreg. Ond efallai bod magwraeth Llinos rai degawdau cyn ei merch yn fwy cosmopolitan nag un Gwenllian – roedd cyfle gan Llinos i ddal bws i Aberystwyth a mynd i'r sinema ond doedd dim cyfleusterau felly yn Nhalgarreg ac felly crwydro'r caeau gyda'i ffrindiau fu Gwenllian, ac roedd mynd i'r ysgol uwchradd yn Aberaeron yn gam go sylweddol. Gydag afiaith mae'r ddwy yn cofio eu dyddiau cynnar er, meddai Gwenllian, doedd neb yn perthyn iddi yn Nhalgarreg tra bod y plant Meraill bron i gyd yn arddel rhyw berthynas.



Mae'r ddwy wedi treulio oes yn gweithio ym myd geiriau – Llinos yn gyfieithydd, athrawes ac awdures a Gwenllian yn gyflwynydd bwletinau a rhaglenni newyddion BBC Cymru. Roedd yna wastad drafodaeth am iaith o amgylch y bwrdd, medd Gwenllian, boed am ei dyfodol neu am ramadeg. Mae nifer ohonom, bellach, yn cymryd yn ganiataol yr hawl i dderbyn addysg a gohebiaeth drwy gyfrwng y Gymraeg ond nid felly oedd hi yn nyddiau ieuenctid Llinos ac yn ystod y sgwrsio cawsom wybod mwy am ei rhan ym mhrotest Pont Trefechan.

Pan yn ifanc roedd mam Llinos yn hoff iawn o adrodd barddoniaeth iddi – gwaith T Gwynn Jones yn bennaf a does ryfedd felly bod Llinos wedi dotio ar waith y bardd ac yn gallu adrodd llinellau, rif y gwlith, o'i waith. Rhyw saith oed oedd hi pan fu farw T Gwynn Jones ond mae'n cofio amdano'n dda a gwefr iddi oedd cael byw, yn nyddiau ei hieuenctid, yn Hafan – cyn-gartref y bardd yn Bow Street.

Yn sgîl ei gwaith mae Gwenllian wedi delio â sawl stori – mae'n cofio'n iawn bod yn yr ystafell newyddion yng Nghaerdydd adeg 9/11, adeg clwy'r traed a'r genau a chyfnod rhyfedd Covid pan bu'n rhaid iddi, yn sydyn, ddarlledu o'i chartref. Anodd yn aml yw dod i adnabod cyflwynydd radio ond yn ystod y nos cawsom olwg ar ei gwaith celf arbennig. Mae hi wrth ei bodd yn llythrennu a gwneud portreadau ac afraid dweud bod ei mam wedi dotio gyda'i phortread godidog o T. Gwynn Jones. Cawsom hefyd flas o'i blwyddyn gyda'r Urdd ynSlofenia wedi rhyfel Bosnia a phwysigrwydd y cyfnod hwnnw iddi.

John Roberts fu'n llywio'r noson a braf oedd dod i adnabod y fam a'r ferch yn well – dwy na chlywch chi byth yn canu clodydd eu hunain ond dwy y mae gwerthoedd cymdeithas wâr, yr iaith a'u treftadaethyn hynod o bwysig iddyn nhw.

Diolch am ganiatâd i ailgyhoeddi yr uchod gyhoeddwyd yn *Perthyn* – misolyn Capel y Morfa, rhifyn 342 (Tachwedd 2025).

**Genedigaeth**

Llongyfarchiadau i Vanessa a Peter James, Maes Blodau, ar enedigaeth eu mab bach newydd Johnnie, brawd bach i Darcy, Vinney, Caryn ac Evan.

**Pen blwydd**

Llongyfarchiadau hefyd i Llio Tanat, Glanfred, a fu yn dathlu ei phen blwydd yn 18 oed ddiwedd Hydref.

**Bardd ifanc**

Llongyfarchiadau i Lisa Thomas, wyres Mair England, disgybl yn Ysgol Dyffryn Cledlyn, ar ennill yr ail wobr trwy Gymru yng nghystadleuaeth barddoniaeth Barddas.

**Gwellhad buan**

Dymunwn wellhad buan i Gwynfryn Evans, Y Ddol, sydd yn Ysbyty Bron-glais.

GWASANAETH GARDDIO
ROBERT GRIFFITHS
Am bob math o waith garddio ffoniwch
07813 338647

James Memorials Ltd
• COFEBAU ARBENNIG
• BEDDARGRAFFIADAU
• ADNEWYDDU O SAFON
• ARWYDDION AR DAI A BUSNESAU
Gofynnwch am rhagor o fanylion
James Memorials, Vicarage Crossing, Llandre, Bow Street SY24 5BZ
Ffôn: 01970 820111
jamesmemorials@gmail.com

Crefftau Pennau
Coffi Boreuol
Byrbrydau Poeth neu Oer
Cinio
Te Prynhawn
Crefftau Ac Anrhegion
Ar agor
Llun-Sadwrn
10.00-4.30
Sul: Ar gau
Brecwast ar gael
01970 820 050
Pennau


DIGIDA
Cyrsiau arlein i fusnesau, mudiadau ac unigolion.
Cyrsiau arlein byr, adnoddau, cymuned a digwyddiadau byw.
Rhowch hwb i'ch marchnata digidol.
Gwefannau
WordPress, Optimeiddio Peiriannau Gwe, Google Analytics
Cyfryngau Cymdeithasol
Facebook, Instagram, TikTok
Marchnata
Strategaeth Marchnata Digidol, Blogio a mwy.
Gyda mwy o gyrsiau yn cael ei ychwanegu yn rheolaidd.
ARFOR
digida.cymru
@digidacymru

CPD Penrhyn-coch
*O dan reolaeth newydd*
Croeso cynnes i bawb o bob oedran, yn deuluoedd ac yn unigolion.
Y CLWB
sef. 1965
Prydau cartref, Cinio dydd Sul. Archebwch fwrdd neu gallwch gael bwyd wedi ei gludo.
Edrychwn ymlaen at eich croesawu
01970 828 992

# Enwau lleoedd

## Angharad Fychan

Ar y mynydd agored rhwng Llyn Llygad Rheidol a Blaen Cwm Gwarin, i'r gogledd-ddwyrain o gopa Pumlumon Fawr, saif carreg *Siani Groca*,[1] a hynny ar fin darn o lwybr a gaiff ei adnabod fel *Llwybr Siani Groca*,[2] ill dau heb fod ymhell o'r ffin â sir Drefaldwyn.




**Map Arolwg Ordnans 6" Ceredigion V SW (2il arg. 1903)**
© Arolwg Ordnans (100064713)

Cyfeirir at y llecyn hwn am y tro cyntaf fel *Pen Shangrocca*, a hynny ar fap o ran o Gwmwd Perfedd a luniwyd o ddeutu 1880.[3] *Shan Crwca* a *Llwybr Shan-crwca* yw'r ffurfiau a gofnodwyd ar argraffiad cyntaf map chwe modfedd yr Arolwg Ordnans yn 1886, ond erbyn cyhoeddi ail argraffiad y map hwnnw yn 1903 fe'u cywirwyd i *Shan Groca* a *Llwybr Shan-groca*. Y fersiynau sy'n gyfarwydd ar lafar i mi yw *Siani Groca* a *Llwybr Siani Groca*.

Yn ôl traddodiad lleol, pedleres oedd *Siani Groca* fyddai'n troedio'r darn hwn o lwybr wrth deithio dros Bumlumon o Lanidloes i Fachynlleth i werthu nwyddau.[4] Honnir i'w chorff gael ei ganfod wrth garreg *Siani Groca*, gan awgrymu mai dyna'r rheswm dros yr enw.



Siani Groca

Ffurf fenywaidd yw *croca* ar yr ansoddair *crwca* yn golygu 'cam, plygedig, crwm', ond yng nghyd-destun enw personol fel *Siani*, ei ystyr fyddai 'cefngrwm'. Fodd bynnag, gan fod i'r garreg hon siâp trawiadol o grwm, tybed ai enw cellweirus yw *Siani Groca* a fathwyd oherwydd tebygrwydd ei ffurf i wraig yn ei chwman? Gallasai traddodiad y bedleres fod wedi datblygu'n ddiweddarach fel chwedl onomastig mewn ymgais i esbonio'r enwau.

Nid dyma'r unig dystiolaeth o'r ansoddair *crwca* yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio rhywun cefngrwm. Mewn nodyn yng nghylchgrawn y *Cyfaill o'r Hen Wlad* yn 1843, cyfeirir at y brenin Richard III, oedd yn enwog am ei wargrymni, fel *Rhysiart Grwca*.[5]

Gellir dwyn cymhariaeth hefyd â'r enwau lleoedd *Garreg-groca*, ym mhlwyf Llanfyrnach, sir Benfro,[6] a *llain yr Erw Grocka* yn Llanbadarn-y-Creuddyn, rhan o blwyf Llanbadarn Fawr, Ceredigion, ers talwm.[7]

**Paratowyd gyda chefnogaeth**
**Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru**
**www.cymdeithasenwaulleoedd.cymru**
**a Geiriadur Prifysgol Cymru**
**www.geiriadur.ac.uk/**

---

1. SN80408768.
2. SN80048790.
3. LlGC, Gogerddan 215, [Part of Manor of Perfedd].
4. Gwybodaeth a gasglwyd gan Cledwyn Fychan yn yr 1960au gan John a Jim James, Nant-y-moch. Gw. Cledwyn Fychan, *Nabod Cymru* (Tal-y-bont, 1973), 85.
5. *Cyfaill o'r Hen Wlad*, 6 (1843) 87.
6. B. G. Charles, *The Place-Names of Pembrokeshire* (Aberystwyth, 1992), 78.
7. LlGC, Cwrtmawr Deeds 1035 (18 Gorffennaf 1668).







Hoffech chi hysbysebu eich busnes yma?

# Madog, Dewi / Cefn-llwyd

**Marchnad Aberystwyth**
**11 Hydref**
Hon oedd y sêl lle cynigiwyd y mwyaf o anifeiliad ar werth eleni gyda 3195 dafad ar werth ac ond 33 heb eu gwerthu. Gwerthodd popeth yn arbennig o dda fel yr adlewyrchir yn y cyfartaleddau. Prisiau fel isod:
Mamogiaid magu (508) cyf £92.74; mwy £185 gan Price & Roberts, Troed-y-rhiw, Goginan.
Brokers magu (309) cyf £90.34; mwy £142 gan Jones, Gilfachau, Llanddeiniol.
Hyrddod lladd (63) cyf £147.49; mwy £270 gan Innovis, Peithyll.
Defaid lladd (879) cyf £77.85, mwy £168 gan Jones, Pen-cefn, Bow Street.
Ŵyn stôr (1345) cyf £87.8, mwy £172 gan Jones, Caebalcog, Swyddffynnon.
Hyrddod magu (25) cyf £295, mwy £480 gan Hopkins, Pengwernydd, Pont-rhyd-y-groes.
Diwrnod arbennig heddiw eto. Diolch i'r tîm am eu gwaith caled. Diolch i'r prynwyr a'r gwerthwyr am eu cefnogaeth.

**25 Hydref**
Cynigiwyd 2477 gwerthwyd 2444. Masnachu gwych o'r dechrau i'r diwedd gyda dros 20 prynwr yn bresennol. Prisiau fel a ganlyn:
Mamogiaid magu (165) cyf £74.9; mwy £180 gan Savinelli, Castellnewydd Emlyn.
Ŵyn benyw (37) cyf £103.62; mwy £122 gan Hulme, Penciog, Llangwyryfon.
Brokers magu (187) cyf £66.43; mwy £127 gan Davies, Goglwyd, Aberteifi.
Hyrddod lladd (7) cyf £115; mwy £202 gan Jenkins, Tanrallt.
Mamogiaid cwlio (569) cyf £72.37, mwy £170 gan Williams, Bwlchcrwys, Aberystwyth.
Ŵyn stôr (1501) cyf £83.33, mwy £205 gan James, Penyberth Isaf, Aberystwyth.
Hyrddod magu (cyf £206.25, mwy £360 gan Griffiths, Nanty, Llangurig.
Diwrnod da heddiw eto. Diolch i'r prynwyr a'r gwerthwyr am eu cefnogaeth.

**8 Tachwedd**
Arwerthiant dda arall lle cynigiwyd 2427 o ddefaid gyda phopeth i weld yn cael eu gwerthu. Roedd y fasnach wyn yn gryf gyda oen yn gwerthu am ychydig dros gan punt ar gyfartaledd. Roedd mamogiaid yn amlwg hefyd gyda ychydig mwy o rai trymion yn fael eu cynnig. Roedd y prisiau fel a ganlyn:
Mamogiaid magu (84) cyf £88.00 mwy £148 gan Jones, Gilfachau, Llanddeiniol.
Ŵyn benyw (176) cyf £65.26; mwy £122 gan Williams, Tŷ Du, y Borth.
Brokers magu (121) cyf £94.45; mwy £119 gan Smith, Ffermydd



Pen-y-bryn, Castell Caereinion.
Hyrddod llad (43) cyf £195; mwy £310 gan Innovis, Capel Dewi.
Mamogiaid cwlio (649) cyf £65.86, mwy £162 gan Jones, Cefnbangor, Goginan.
Ŵyn stôr (1351) cyf £101.08, mwy £230 gan Morgan, Penglanowen, New Cross.
Hyrddod magu (2) cyf £177, mwy £230 gan George, Llwynbrain, New Cross.
Aeth pawb adref yn hapus. Diolch i'r prynwyr a'r gwerthwyr am eu cefnogaeth.


**Pen blwydd arbennig**
Pen blwydd hapus hwyr i Gwyneira Morris, y Fronfraith, a ddathlodd ben blwydd yn 80 oed yn ddiweddar.

**Brysiwch wella**
Dymunwn wellhad buan i Ieuan Hughes, Golygfa, Troedrhiwgwinau, ar ôl derbyn clun newydd yn Ysbyty Gobowen; hefyd i Eirian Hughes, Lluestfach, Luned Evans, Deilyn a Sylvia Powell, Nantybwla – y dair heb fod yn hwylus yn ddiweddar.

## Cyhoeddi cyfrol deyrnged

Lliaws rhith: astudiaethau ar lenyddiaeth Cymraeg a Cheltaidd cyflwynedig i'r Athro Marged Haycock. Gwasg Prifysgol Cymru, 2025. 704t. £29.99

Dyma gyfrol gyfoethog o ysgrifau'n ymwneud ag amrywiol agweddau ar lenyddiaeth Gymraeg a Cheltaidd, ac sy'n talu teyrnged i gyfraniad arbennig yr Athro Marged Haycock i'r ddisgyblaeth. Cesglir ynghyd waith ysgolheigion blaenllaw ar bynciau'n ymestyn o'r cerddi Cymraeg cynharaf i lên gwerin a chof bro. Gyda'i gilydd, ffurfia'r penodau lyfr tra sylweddol a phwysig ar lenyddiaeth Gymraeg a Cheltaidd. Caiff ei lansio yn Nulyn yr wythnos hon ac yn Aberystwyth ar 29 Tachwedd.




## Colofn **Elin Jones AS**

Mae'r misoedd diwethaf wedi bod yn amrywiol a phrysur iawn.

Cefais y cyfle i fod yn rhan o brotest Grŵp Amddiffyn Bronglais ar risiau'r Senedd, ar y diwrnod cyflwynwyd dadl yn y siambr yn sgîl gwaith aruthrol y Grŵp i gasglu dros 17,000 o lofnodion i'w deiseb. Derbyniwyd cefnogaeth ar draws llawr y Senedd i wrthwynebu cynigion Bwrdd Iechyd Hywel Dda i gyflwyno gwasanaeth 'trin a throsglwyddo' i gleifion strôc Bronglais. Fyddai'r newidiadau yma yn eu hanfod yn israddio'r gwasanaethau strôc gyfredol yn Aberystwyth. Cafodd cynrychiolwyr y Grŵp hefyd gyfarfod gyda Jeremy Miles AS, Ysgrifennydd Iechyd Cabinet y Llywodraeth, i bwysleisio iddo bwysigrwydd cynllunio gwasanaethau yn strategol ar draws canol a gorllewin Cymru.

Llongyfarchiadau gwresog i bawb fu'n rhan o'r gwaith llwyddiannus i ddynodi Aberystwyth Ceredigion yn Ddinas Llên UNESCO! Dyma'r Ddinas Llên gyntaf yng Nghymru, y chweched o fewn y Deyrnas Gyfunol ac yn un o ddim ond tua 50 ar draws y byd. Nid teitl yn unig yw'r dynodiad yma. Mae'n adlewyrchu bwrlwm llenyddol presennol yr ardal ac yn rhoi llwybr i ddefnyddio'r statws i hybu'r economi lleol ac i annog cynhwysiant a dysg i'r dyfodol.

Fues i hefyd yng nghanol bwrlwm Gŵyl Lleisiau Arall Aberteifi ac yn rhan o Ŵyl Lyfrau Aberaeron yn ddiweddar, ac rydym wedi cael y fraint o groesawu'r Ŵyl Gerdd Dant cenedlaethol i Geredigion hefyd eleni.

Rwy'n siŵr byddwch chi, fel fi, yn browd iawn fod Ceredigion yn llwyfan cenedlaethol i gymaint o ddigwyddiadau, a diolch i bawb sy'n gweithio'n galed i ddenu, paratoi a chynnal y digwyddiadau llwyddiannus yma, sy'n cyfoethogi ein bywydau ni oll.

Cadwch yn ddiogel.
Elin
Elin Jones AS Ceredigion
elin.jones@senedd.cymru
01970 624516



## Bow Street

**Suliau Capel y Garn**
*Tachwedd*
23 2.30 Judith Morris
30 Meirion Morris

*Rhagfyr*
7 Noddfa Richard Lewis
14 Carwyn Arthur
21 Y Gair ar gân
25 Gwasanaeth bore'r Nadolig
28 Dim oedfa

**Noddfa**
*Tachwedd*
30 Uno yn y Garn

*Rhagfyr*
7 Richard Lewis. Y Garn yn uno
14 Richard Lewis. Gwasanaeth Nadolig
21 Uno yn y Garn ar gyfer Gwasanaeth y Gair a'r Geiriau
25 Uno yn y Garn am 9.00
28 Dim Oedfa

**Merched y Wawr**
Cafwyd cyfarfod gwahanol i'r arfer mis Hydref, ei gynnal ar ddiwrnod gwahanol, amser gwahanol a lleoliad gwahanol! Aethpwyd i ymweld â fferm wenyn Wainwright, Llandre yn y bore. Am agoriad llygaid. Dysgwyd llawer am wenyna a chreu mêl. Bore diddorol dros ben. I gloi aethpwyd I Crefftau Pennau am luniaeth hyfryd; diweddglo braf.

**Buddugol yn yr Ŵyl**
Llongyfarchiadau i'r bytholwyrdd Vernon Jones, Gaerwen, am ddod yn gyntaf ar gerdd ar fesur triban (hyd at 24 llinell) ac ail ar gerdd ysgafn ar fesur 'Aberdaron' Cynan yn yr Ŵyl Gerdd Dant yn Aberystwyth.

**Pen blwyddi**
Pen blwydd hapus i Manon Fflur Mason, Bryncastell a fu'n dathlu pen blwydd arbennig yn ddiweddar.

Pen blwydd hapus hefyd i Beca Angharad Davies, Blaenddol a fu'n dathlu ei phen blwydd yn 18 oed ddechrau'r mis.


**Genedigaeth**
Llongyfarchiadau i Amy a Bryn McGlligan Oliver (Crefftau Pennau) ar enedigaeth mab – Marley ar Dachwedd 11eg.

## Y Garn ym mis Hydref

Ar Sul cyntaf y mis tro aelodau'r Garn i ymuno ag aelodau Capel Noddfa oedd hi i gael ein harwain mewn addoliad gan y Parchg Richard Lewis. Wythnos wedi hynny cafwyd gwasanaeth yng Nghapel y Garn dan arweiniad y Fns. Bronwen Morgan; y Sul canlynol daeth ein cyn-Weinidog y Parchg Wyn Morris atom i'n harwain mewn Oedfa Gymun, ac ar Sul olaf y mis ail-ymunodd ein haelodau ag aelodau Noddfa dan arweiniad y Parchg. Richard Lewis.

Brynhawn Mercher cyntaf y mis daeth Cymdeithas y Chwiorydd ynghyd, yn ôl eu harfer, ym Mwyty Crefftau Pennau, i drafod a threfnu eu gweithgareddau ac i fwynhau'r gyfeillach.

Agorwyd tymor y Gymdeithas Lenyddol yn y Capel nos Wener yr 17eg o'r mis dan gadeiryddiaeth Gareth William Jones, pryd y croesawyd y newyddiadurwr a'r darlledwr Dewi Llwyd atom, i roi sgwrs hynod o ddiddorol am ei yrfa a'i brofiadau dan y teitl priodol 'Pawb a'i Farn'.




## Capel Noddfa



'Gosodais di yn oleuni i'r cenhedloedd, iti fod yn gyfrwng iachawdwriaeth hyd eithaf y ddaear.'

Gareth oedd yn gyfrifol am y Gyfeillach mis Hydref ac roedd ei sgwrs wedi ei seilio ar lyfr taith a gyhoeddwyd yn 1936 gan awdur o'r enw H.V. Morton. Teitl y llyfr oedd *In the steps of St. Paul* a'r hyn wnaeth Morton oedd disgrifio ei brofiadau yn teithio ar hyd y llwybrau a droediodd Sant Paul fel eu disgrifir gan Luc yn Actau'r Apostolion.
Yn gyntaf eglurodd Gareth sut y daeth y llyfr i'w feddiant a bod troedigaeth annisgwyl ei dad yn rhan o hynny, oedd yn eironig gan mai troedigaeth oedd cefndir y llyfr.

Yna, aeth ymlaen i egluro pam y teithiodd Paul a pha mor bell y teithiodd yr Apostol gan gyfeirio at Actau'r Apostolion a llyfr Morto. Mae nifer o'r dinasoedd y cenhadodd Paul ynddyn nhw yn adfeilion ers canrifoedd ac eraill wedi datblygu'n ddinasoedd poblog ac mae rhai o'r gwledydd y lledaenodd Paul neges yr Iesu ynddyn nhw yn gyrchfan gwyliau erbyn heddiw tra bod eraill yn rhy beryglus i ymweld â nhw.

Yn ddiddorol roedd ambell un yn y gynulleidfa wedi ymweld â'r dinasoedd a'r lleoliadau a soniodd Gareth amdanynt.

Yn ôl ysgolheigion fel Karen Armstrong roedd Paul yn pregethu ac yn ysgrifennu ei lythyrau ar gyfer ei gyfnod. Yn ôl Armstrong ni fyddai wedi credu y byddai ei genhadaeth na'i eiriau yn cael eu trafod ganrifoedd ar ôl ei ddyddiau. Roedd yn anghywir a gobeithio y bydd yn anghywir am flynyddoedd i ddod. Diana a Huw fydd yn gyfrifol am Gyfeillach mis Tachwedd.

**SIOP A SWYDDFA BOST PENRHYN-COCH**
Perchennog: Laurence Kelly
**AR AGOR**
**Llun – Sadwrn**
**7 y bore – 9 yr hwyr**
**Sul**
**7 y bore – 7 yr hwyr**
**Papurau dyddiol a'r Sul, cardiau cyfarch siop drwyddiedig**
**01970 828312**

GWASANAETH CYFIEITHU
Linda Griffiths
Maesmeurig
Pen-bont
Rhydybeddau
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 3EZ

01970 828454
linda.griffiths01@btinternet.com

## Goginan

**Teulu Troedrhiw**
Dyma flwyddyn lwyddiannus mae'r teulu yma wedi ei gael. Eu hyrddod yn gwerth gyda pris sylweddol yn Llanfair-ym-Muallt gyda'u "Blueface", a'r "Beltex"yn y Trallwng, hwrdd Cymreig yn Nhregaron a nawr pris o dros £4000 am "Troedrhiw Whinnie Fach mewn gwethiant.



Karen, Dafydd a'i mab Llew

**Cadair Eisteddfod**
Llongyfarchiadau i Erin Baxter, wyres i Colin a June Baxter, Oakdale ar ennill Cadair Ysgol Henry Richard, Tregaron am ei darn o farddoniaeth yn y Gymraeg. Yn y llun gwelir Erin gyda'i thad a'i Mam-gu.



**Pen blwydd arbennig**
Fe fydd Aled Bebb, Penpistyll yn dathlu pen blwydd arbennig ar ddechrau Rhagfyr. Pen-blwydd hapus iddo.

**Gwellhad buan**
Mae Huw Jones, Hafan, Cwmbrwyno yn yr Ysbyty. Dymunwn wellhad buan iddo.

**D J Evans**
**Cyfarwyddwyr Angladdau**

Busnes teuluol gyda dros
60 mlynedd o brofiad

Kairali, Penrhyn-coch SY23 3EQ

Gwasanaeth personol, urddasol
gyda chydymdeimlad
Gwasanaeth Pedair Awr ar Hugain
djevansfuneraldirectors@gmail.com

**Aberystwyth 01970 615328**
**Penrhyn-coch 01970 820249**
**Machynlleth 01654 700006**

**Talwrn y Beirdd 2026**
Yn dilyn trefnu gornestau Talwrn y Beirdd ddechrau'r mis bydd Tal-y-bont yn wynebu Tî Y Diwc, Caerdydd a'r Cwps yn wynebu Glannau Teifi, Aberteifi.

## Daearyddwr o Aberystwyth yn ennill un o brif anrhydeddau'r Unol Daleithiau am ei ymchwil i afonydd mewn diffeithdir

Mae arbenigwr blaenllaw ar amgylcheddau diffeithdir o Brifysgol Aberystwyth wedi derbyn gwobr ryngwladol nodedig am ei waith mewn seremoni yn yr Unol Daleithiau.

Cafodd yr Athro Stephen Tooth, Cwmbrwyno, y Wobr Farouk El-Baz am Ymchwil i Ddiffeithdir gan Gymdeithas Ddaearegol America. Cyflwynir y wobr academaidd yn flynyddol am gorff o waith rhagorol ym maes ymchwil diffeithdiroedd cynnes. Yr Athro Tooth yw'r 28ain unigolyn i dderbyn y wobr a'r academydd cyntaf o Gymru i ennill yr anrhydedd, a dim ond y trydydd academydd erioed o'r DU. Mae ei ymchwil wedi gwella'r ddealltwriaeth o sut mae afonydd mewn diffeithdiroedd yn ffurfio, esblygu, ac yn rhyngweithio â'u tirweddau. Mae ei waith maes wedi cwmpasu Awstralia, de Affrica, de Ewrop, Gogledd a De America ac India.

Derbyniodd yr Athro Tooth y wobr yng nghyfarfod yr hydref o Gymdeithas Ddaearegol America yn San Antonio, Texas lle, mewn ymateb i wahoddiad, rhoddodd gyflwyniad yn ystyried dros dri degawd o waith ymchwil ar systemau afonydd mewn diffeithdiroedd. Wrth siarad cyn y digwyddiad, meddai'r Athro Tooth:

"Mae'n anrhydedd aruthrol derbyn y wobr hon gan Gymdeithas Ddaearegol America. Mae afonydd mewn diffeithdiroedd ymhlith y systemau mwyaf deinamig a diddorol ar y Ddaear, ond o ran eu hastudio, maent wedi'u hesgeuluso o'u cymharu ag afonydd mewn rhanbarthau gwlypach. Rwy'n falch bod fy ngwaith wedi helpu i hyrwyddo dealltwriaeth o'r systemau hyn, yn enwedig trwy dynnu sylw at lawer o nodweddion anarferol yr afonydd a thrwy fynd i'r afael â llawer o gamsyniadau ynglŷn â'u prosesau.

"Mae gan yr Adran Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear ym Mhrifysgol Aberystwyth hanes hir o ymchwil i amgylcheddau diffeithdir, ac rwy'n arbennig o falch o allu cynrychioli'r adran, y Brifysgol a Chymru ar y llwyfan rhyngwladol."




Wrth enwebu'r Athro Tooth ar gyfer y wobr, dywedodd yr Athro Emeritws Gerald C. Nanson o Ysgol Atmosffer y Ddaear a'r Gwyddorau Bywyd, Prifysgol Wollongong, Awstralia:

"Nid oes un geomorffolegydd arall wedi gwneud mwy i ddatblygu ein dealltwriaeth fodern o faes geomorffoleg afonydd y diffeithdir (tir sych) yn fyd-eang, i hyrwyddo syniadau a thystiolaeth newydd, a chywiro argraffiadau a grëwyd rhai degawdau yn ôl am y systemau hyn sy'n aml yn cael eu camddeall. Mae'r Athro Tooth yn wyddonydd arloesol, craff, beirniadol a gweithgar iawn ar ganol ei yrfa, â hanes eithriadol mewn gwaith ymchwil i ddiffeithdiroedd, yn ysgolhaig sy'n llawn haeddu Gwobr El Baz."

# Newyddion o'r Ŵyl Gerdd Dant

## Tlws Coffa Gareth Mitford Williams

Cyflwynwyd tlws newydd yn yr Ŵyl eleni - Tlws Coffa Gareth Mitford Williams, er cof am arweinydd cyntaf Côr Cerdd Dant Pantycelyn. Cyflwynir i'r buddugol yng nghystadleuaeth cyflwyniad amlgyfrwng yn flynyddol. Yr enillwyr cyntaf oedd Glanaethwy.

Comisiynwyd yr artist Ruth Jên Evans i lunio y tlws oedd wedi ei seilio ar waith taid Gareth – yr artist W. Mitford Davies (1895-1966). Dyma Ruth Jên yn egluro sut aeth ati i'w lunio:

"Y Pibydd Birth' gan yr artist W. Mitford Davies, taid Gareth Mitford Williams, oedd yr ysbrydoliaeth y tu ôl i'r gwaith hwn. Y nod oedd creu darn o gelf sy'n uno elfennau o ddiniweidrwydd, direidi a dwyster.



Defnyddiwyd y broses argraffu a elwir yn monoprint ar gyfer y gwaith gwreiddiol. Argreffir amlinelliad mewn inc du, yna mae'r cynllun yn cael ei beintio â llaw gan ddefnyddio paent dyfrlliw o'r safon uchaf.

Argraffwyd nifer cyfyngedig o chwe phrint yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth, gan ddefnyddio papur ac inc archifol."

**RAFFL**
Dyma enillwyr Raffl yr Ŵyl Gerdd Dant dynnwyd nos Wener 7 Tachwedd yn Ysgol Penweddig.
Telyn Derwent 'Discovery 16' Telynau Cambrian Harps) Dylan Cernyw
£200 Colin Fletcher, Aberystwyth
Llun gan Rhys Pugh – Iestyn Hughes, Bow Street
Tocyn teulu (2 oedolyn a dau blentyn) i Sioe Arad Goch – Aled a Heledd Morgan, Aberystwyth
Poster 'Rhithganfyddiad' o Aberystwyth (gwaith Efa Lois) – Menna Williams, Llangernyw
Bag unigryw Gŵyl Cerdd Dant Aberystwyth a'r Fro 2025 – Enfys Morris, Llanddeiniol.

Enillydd y Clwb Cant oedd Sara Gibson, Penrhyn-coch.

**ADRAN BARDDONIAETH**
Canlyniadau gyda'u noddwyr
Cerdd, 3 phennill 6 llinell o gywydd a 2 hir-a-thoddaid. Testun - Agored.
*Gwobrau: £100 i'w rannu a Thlws yr Ŵyl.* **Huw a Meinir Edwards, Llandre**
1 Hilma Edwards 2 Arwel Emlyn Jones
Cerdd ar fesur 'I Orwedd Mewn Preseb'. Testun - Agored.
*Gwobrau: £100 i'w rannu a Thlws yr Ŵyl.* **David a Beryl Jenkins Aberystwyth**
1 Cefin Roberts 2 Myfanwy Roberts 3 Hilma Edwards
Cerdd ar fesur triban (hyd at 24 llinell). Testun - Agored.
*Gwobrau: £100 i'w rannu a Thlws yr Ŵyl.* **Eurig, Rhiannon a Llew Salisbury, Aberystwyth**
1 Vernon Jones 2 Megan Richards 3 Martin Huws
Cystadleuaeth i rai dan 25 oed (hyd at 16 llinell). Testun - Cyfle.
*Gwobrau: £100 i'w rannu a Thlws yr Ŵyl.* **Fforwm Papurau Bro Ceredigion**
1 Nanw Maelor 2 Lea Mererid 3 Rebecca Rees a Loti Dobson
Cerdd ysgafn ar fesur 'Aberdaron', Cynan. Testun – Agored.
*Gwobrau: £100 i'w rannu a Thlws yr Ŵyl.* **Gwerfyl Pierce Jones, Penrhyn-coch**
1 Awen Powell 2 Vernon Jones 3 Megan Richards ac Iwan Thomas
Cerdd hyd at 40 llinell. Testun – Aber.
*Gwobrau: £100 i'w rannu a Thlws yr Ŵyl.* **Nest Gwilym, Bow Street**
1 Arwel Emlyn Jones 2 Lowri Emlyn 3 H.M. Roberts

Rhodd Garej Tŷ Mawr o £500 i'r Ŵyl.

# Cadeirydd Bwrdd Rheoli Newydd i Arad Goch

Mae Arad Goch yn falch o gyhoeddi penodiad Sara Gibson yn Gadeirydd newydd Bwrdd Rheoli Arad Goch gan olynu Dr. Elin Haf Gruffydd Jones, sydd wedi camu i lawr ar ôl saith mlynedd o arweinyddiaeth ymroddedig a gweledigaethol i'r cwmni.

Yn olynu Dr Elin mae Sara Gibson sydd â chefndir sy'n cwmpasu'r celfyddydau, addysg ac arweinyddiaeth ddiwylliannol. *"Mae'n anrhydedd ac yn bleser mawr gen i gael fy mhenodi'n Gadeirydd Cwmni Theatr Arad Goch - cwmni sydd â lle arbennig iawn yn fy nghalon. Diolch i'r Athro Elin Haf Gruffydd Jones am ei gwaith arbennig yn cadeirio'r Bwrdd dros y 7 mlynedd diwethaf, ac rwy'n falch y bydd hi'n parhau i fod yn aelod allweddol o'r Bwrdd.*

*Des i ar draws Arad Goch gyntaf 28 mlynedd yn ôl wrth weithio gyda Theatr Gorllewin Morganwg, ac rydw i wedi dilyn ei daith gydag edmygedd byth ers hynny, gan ddod yn aelod balch o'r bwrdd 11 mlynedd yn ôl pan symudon ni fel teulu i Aberystwyth. Mae ei ymrwymiad i greu theatr ddychmygus o ansawdd uchel i blant a phobl ifanc — yn y Gymraeg a'r Saesneg — yr un mor ysbrydoledig ag y bu erioed. Fel mam i dri o blant, rwy'n gwybod o brofiad uniongyrchol pa mor bwerus mae profiadau creadigol wrth siapio meddyliau ifanc, ac agor y byd iddyn nhw.*

*Rwy'n edrych ymlaen yn fawr at gefnogi'r bennod gyffrous nesaf yn nhaith y cwmni dwyieithog, rhyngwladol gwych hwn, ac i gefnogi'r tîm arweiniol wrth i ni anelu am ein penblwydd mawr yn*



*40 oed ymhen 4 mlynedd."*

Bydd Sara yn cadeirio ei chyfarfod cyntaf yn Fis Ionawr. Diolchodd Dr Elin Gruffydd *"i holl aelodau'r Bwrdd am eu hymroddiad unwaith eto eleni. Mawr yw ein diolch fel Bwrdd i'n cyllidwyr am barhau i fuddsoddi yn y gwasanaeth pwysig hwn. Nid moethusrwydd i rai yw profiadau creadigol Cymraeg a dwyieithog i blant a phobl ifanc, ond arwydd o gymdeithas war sy'n cefnogi cyfleoedd i bawb, gan roi lle priodol i theatr mewn ysgolion ac mewn cymunedau. Yn wyneb heriau i'n gwerthoedd democrataidd, mynnwn hir oes i'godi drych profiad ac agor drws dychymyg".*

# Colofn Clwb Golff Y Borth ac Ynys-las

**Catrin Pugh Jones**








Croesawyd y capteiniaid newydd ar gyfer 2025-26 sef Jane Miller a Harri Jones yn ystod Cyfarfod Cyffedinol Blynyddol y clwb, gan ddymuno blwyddyn lwyddiannus i'r ddau. Wrth dderbyn ei bathodyn aur fel Capten gan y cyn gapten Helen Lewis, cyhoeddodd Capten Jane mai apêl STOP MS yw ei helusen dewisedig. Nick Downing, capten arall y llynedd, wnaeth arwain y seremoni cyfnewid tei a siaced werdd wrth drosglwyddo'r awenau i Capten Harri, sydd wedi dewis Ymchwil Canser Cymru fel ei elusen ar gyfer y flwyddyn.

Cafodd y ddau gapten etholedig ar gyfer 2026-27 eu cyflwyno hefyd, sef Anne Morris a David Greathead, yn ogystal â'r ddau aelod anrhydeddus Nans Morgan a John Pugh Jones.

Dathlwyd dechreuad cyfnod y capteiniaid newydd gyda'r 'Gyrru I Mewn' a'r 'Pytio Mas' traddodiadol. Roedd yn gyfle i ddiolch i Helen a Nick ar ôl eu blwyddyn lwyddiannus wrth y llyw gyda'r ddau yn pytio allan ar y 18fed twll cyn croesawu Jane a Harri wrth i'r ddau ddreifio i lawr y twll cyntaf. Ar ddiwedd y dydd, cafwyd noson arbennig iawn yn y clwb a'r lle yn llawn ar gyfer Cinio a Dawns. Roedd pawb wedi mwynhau cerddoriaeth band Fore! Sef pedwarawd jazz o dan arweiniad Rhys Taylor gyda Mike Taylor, Den York a Geraint Evans. Mae ein diolch yn fawr i Rhys Taylor a'r band am noson i'w chofio.





JONATHAN LEWIS
Saer Coed / Adeiladydd
01970 880 652
07773 442 260
LLWYNDAFYDD, CAPEL BANGOR ABERYSTWYTH

## Cyngor Cymuned **Trefeurig**

Cyfarfu'r Cyngor nos Fawrth, 16 Medi yn Neuadd y Penrhyn gyda'r Cadeirydd, Richard Owen, yn y gadair. Roedd Mel Evans, Aled Jones, Eirian Reynolds a Meirion Roberts yn bresennol, ynghyd â'r Clerc. Derbyniwyd ymddiheuriadau gan yr aelodau nad oeddynt yn bresennol.

Materion yn codi: Maes Seilo – dim gwybodaeth bellach. Cynnal a chadw - cadarnhawyd fod Aled Jones wedi delio gyda chwyn yn y mannau y gofynnwyd iddo, ac roedd wedi torri'r clawdd wrth fap y pentref. Roedd y Clerc wedi trefnu fod Seren Signs yn cyfarfod gydag Eirian Reynolds i drefnu i uwchraddio'r map.

Cyllid: roedd yr awdit mewnol wedi'i gwblhau, ac roedd y ffurflenni'n barod i'w hanfon i Awdit Cymru.

Gwnaed y trefniadau ar gyfer Sul y Cofio.

Cyfarfu'r Cyngor nos Fawrth, 21 Hydref yn Neuadd y Penrhyn gyda'r Cadeirydd, Richard Owen, yn y gadair. Roedd Delyth James, Aled Jones, Dai Mason, Eirian Reynolds a Meirion Roberts yn bresennol, ynghyd â'r Clerc a'r cynghorydd sir, Caryl Roberts. Derbyniwyd ymddiheuriadau gan yr aelodau nad oeddynt yn bresennol.

Materion yn codi: Cynnal a chadw – Roedd y Clerc yn disgwyl i Seren Signs ddarparu drafft o'r map newydd. Cytunwyd y byddai'r Cadeirydd ac Eirian Reynolds yn ei wirio.

Gohebiaeth: Roedd gohebiaeth wedi dod gan Chris Jones, a oedd yn gweithredu ar ran Cyngor Ceredigion, yn annog cymunedau i ddarparu Cynllun Lle (Place Plan). Byddai'r Clerc yn anfon yr wybodaeth ymlaen. Cartref Tregerddan – roedd llythyr wedi dod gan Bwyllgor Cyfeillion Cartref Tregerddan. Gan fod y cartref wedi cau, roedd y Pwyllgor wedi penderfynu cyfrannu'r arian oedd ar ôl yng nghronfa'r Cyfeillion i'r cynghorau cymuned oedd wedi arfer rhoi arian i'r gronfa. Yr unig amod oedd y byddai'r arian yn cael ei wario ar rywbeth fyddai o fudd i'r henoed. Yn achos Trefeurig, byddai'r swm tua £1,100. Roedd y Cyngor yn ddiolchgar am yr arian, a phenderfynwyd ei glustnodi ar gyfer gwella'r grisiau ym Maes-yr-efail. Roedd y Cyngor eisoes wedi gwneud cais am grant ar gyfer y cynllun hwn.

Sul y Cofio – cadarnhawyd y trefniadau.

Cynghorydd Sir – cafwyd adroddiad am y datblygiadau diweddar gan y cynghorydd sir. Nododd fod angen swm o £500 o hyd tuag at adnewyddu'r byrddau gwybodaeth yng Nghwmsymlog. Roedd y Cyngor wedi cytuno y gallai gyfrannu £300; cynigiodd Dai Mason i gynorthwyo i godi £200 yn lleol.

# Y Borth

**Goleuo'r Goeden Nadolig**

Bydd goleuadau Nadolig y pentref yn cael eu goleuo wrth iddi dywyllu ddydd Iau 4 Rhagfyr fel rhan o ddigwyddiad arbennig wedi'i drefnu gan orsaf bad achub Y Borth. Mae Cyngor Cymuned Y Borth wedi talu am goeden i'w gosod yn ei lle arferol y tu allan i orsaf y bad achub a bydd plant Ysgol Craig yr Wylfa yno'n canu. Bydd rhai busnesau lleol hefyd yn cynnau eu goleuadau ar y diwrnod.

**Ffair Elusennau'r Borth**

Caiff Ffair Nadolig Elusennau flynyddol Y Borth ei chynnal rhwng 10yb ac 2yp ar ddydd Sadwrn 6 Rhagfyr yn Neuadd Goffa Gymunedol y pentref. Ymhlith y grwpiau a mudiadau elusennol â stondin yno bydd Cymdeithas Alzheimers; Ysgol Craig yr Wylfa; Clwb Pêl-droed Y Borth; RNLI Y Borth; Hwb Cymunedol, Clwb Ieuenctid a Sied Dynion Y Borth; Cymorth i Uganda; WI Y Borth; Y Lleng Brydeinig Frenhinol; Eglwys Llandre; Eglwys Eglwys-fach; Eglwys Llangorwen; Eglwys Sant Matthew a Llan Llanast Y Borth; L.A.T.C.H.; Cymdeithas Henoed; Cŵn Hector, ac Amgueddfa Gorsaf Reilffordd Y Borth. Bydd lluniaeth ar werth drwy gydol y ffair a bydd Hwb Cymunedol Y Borth yn creu Groto Nadolig yn y neuadd gydag ymweliad arbennig gan Sion Corn. Mae mynediad i'r ffair am ddim ond mae tâl o £3 i fynd i'r groto. Croeso cynnes i bawb!

**Arddangosfa Celf Gwymon**

Cafodd arddangosfa arbennig o waith celf wedi'i ysbrydoli gan arfordir a gwymon yr arfordir ei hagor yn swyddogol yng Nghanolfan Celfyddydau Aberystwyth ddydd Sadwrn 16 Tachwedd.

Mae arddangosfa Ar Lan Y Môr yn ffrwyth cydweithrediad creadigol rhwng Gwneuthurwyr Print Aberystwyth ac Athrofa y Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig (IBERS)

Mae'r ddau bartner yn gymdogion agos ar gampws IBERS yng Ngogerddan ac yn awyddus i ddatblygu'r cysylltiad rhwng celf a gwyddoniaeth, yn dilyn prosiect cyffelyb y llynedd o gwmpas y cnwd biomas *Miscanthus.* At ei gilydd, mae dros 40 o weithiau wedi'u creu gan artisitiad yn ogystal â gwyddonwyr, haneswyr ac aelodau o'r gymuned leol. Dywed y trefnwyr fod y cyfuniad o ddeunyddiau celf, yn cynnwys papur wedi'i wneud o wymon, yn ffordd gyffrous o gyfuno gwyddoniaeth gwymon a chelf wedi'i ysbrydoli gan wymon.

Ar ddechrau'r prosiect, fe gyfarfu grŵp o'r gwneuthurwyr print ar draeth Y Borth i glywed



am waith ymchwil Dr Jessica Adams, Uwch Wyddonydd Ymchwil yn IBERS sy'n arbenigo ar nodweddion gwymon. Mae yr artist lleol Stuart Evans yn y cyfarfod hwnnw ac mae ei brintiau yn rhan o'r arddangosfa. Bydd yr arddangosaf i'w gweld yn Oriel 2 yng Nghanolfan y Celfyddydau a bydd yno tan 8 Chwefror, gan gydfynd â Chynhadledd Cymdeithas Wymonegol Prydain sy'n cael ei chynnal yn Aberystwyth yn gynnar yn 2026.

## Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Lleng Brydeinig

Cynhaliodd cangen Y Borth o'r Lleng Brydeinig Frenhinol eu cyfarfod cyffredinol blynyddol yn Neuadd Goffa Gymunedol Y Borth ddechrau Tachwedd. Y swyddogion a etholwyd ar gyfer y flwyddyn i ddod oedd: Ray Quant MBE, Cadeirydd; Dr Valerie Norrington Davies, Ysgrifennydd; Margaret Griffiths, Is-Gadeirydd; Roy Jones, Trysorydd; Mark Williams, Llywydd and Jack Morris, banerwr. Mae'r gangen bob amser yn croesawu aelodau newydd a dylai unrhyw un sydd â diddordeb gysylltu gydag un o'r swyddogion.



**R.J Edwards a'i Fab**
Adeiladau Fferm y Cwrt
Cwrt Farm Buildings
Penrhyn-coch

Contractiwr, masnachwr gwair a gwellt
Arbenigwr ar ailhadu
Cyflenwi a gwasgaru calch, slag a Fibrophos
Lori, turiwr a malwr i'w llogi
Cyflenwi cerrig mán

01970 820149



## Sul y Cofio

Cynhaliwyd Gwasanaeth Cofio yn Eglwys San Matthew ar ddydd Sul 9 Tachwedd dan ofal y Parchedig Philip Wynne Davies. Cafodd enwau'r 61 o bobl Y Borth a'r cylch, a gollodd eu bywydau tra'n gwasanaethu yn y lluoedd arfog yn ystod y ddwy ryfel byd, eu darllen gan Lywydd y Lleng Brydeinig yn lleol, Mark Williams, gyda Margaret Griffiths a Ray Quant yn darllen y llith. Jack Morris fu'n cludo'r faner.

**Geni ŵyr**
Llongyfarchiadau i Ruth a Martin Griffiths, Ffosygrafel, ar enedigaeth ŵyr bach - James Aneurin Holloway, mab bach i Ffion a Tim a gor-wyr i Mrs Margaret Griffiths. Pob dymuniad da i'r teulu.

**Ffair Grefftau'r Nadolig**
Bydd dros 30 o artistiaid a chrefftwyr lleol yn gwerthu eu nwyddau yn Ffair Grefftau Nadolig Y Borth sy'n cael ei chynnal eleni rhwng 10yb a 4yp ar ddydd Sul 30 Tachwedd yn y Neuadd Goffa Gymunedol. Ymhlith y stondinau bydd gwaith celf, basgedi, tecstilau, gemwaith, crochenwaith, gwaith coed, canhwyllau, mêl a mwy. Bydd lluniaeth hefyd ar werth yn ystod y dydd, dan ofal tîm BaraBorth.



## Celf ar y cledrau

Diolch i gymorthdal gan Reilffyrdd y Cambria, mae oedolion hŷn ac aelodau o'r grŵp dementia gyfeillgar Hwb Cymunedol Y Borth wedi bod yn cael hwyl yn creu pob math o weithiau celf wedi'u hysbrydoli gan deithiau trên. Os hoffech ymuno ag un o'r sesiynau, cysylltwch â Helen Williams helen@borthcommunityhub.co.uk.

# Capel Bangor / Pen-llwyn

**Suliau Pen-llwyn**
*Tachwedd*
30 10.00 Mr. Raymond Davies

*Rhagfyr*
7 2.00 – Dr. Rhidian Griffiths
14 2.00 – Dr. John Tudno Williams
21 10.00 – Gair a'r Geiriau Capel y Garn
28 I'w drefnu

**Yr Ŵyl Gerdd Dant**
Llongyfarchiadau i Morris Caradog Jones o Gaerdydd , ond sydd â chysylltiadau agos â Phen-llwyn, am ennill y wobr gyntaf am gystadleuaeth Stepio Unigol Agored yn yr Ŵyl Gerdd Dant a gynhaliwyd yn Aberystwyth ar yr 8fed o Dachwedd. Daeth cyw ddisgybl iddo, sef Osian Rhys Jones yn drydydd yn yr un gystadleuaeth. Rydym fel ardal yn falch iawn ohonoch eich dau, daliwch ati. Mae Morris yn fyfyriwr yng Ngholeg Hartpury erbyn hyn ac Osian yn ddisgybl blwyddyn 8 yn Ysgol Gyfun Cwm Rhymni.

**Capel Penllwyn**
Dydd Sul, 26ain o Hydref daethom ynghyd yn y prynhawn i Wasanaeth Diolchgarwch y Capel. Eleni, Dr. RhIdian Griffiths oedd yn agor y Gair i ni. Canolbwyntiodd ei sylwadau ar




Salm 104, "Fy enaid bendithia yr Arglwydd". Fel arfer cawn ni ein bendithio gan Dduw ond yma cawn ein gwahodd a'n cymell i fendithio yr Arglwydd ein hunain. Yn ôl ein harfer, ni chawsom ein siomi gan y gennad, roedd y naws weddigar ac ysbrydoledig a grëwyd yn ein gwneud yn ddiolchgar o fod wedi mynychu'r oedfa. Diolchwyd i Dr. Griffiths yn ogystal a diolch i Dduw am ei haelioni eleni eto. Cafwyd paned a chacen wrth gymdeithasu ar ddiwedd yr oedfa. Mrs. Catrin Evans oedd yn chwarae'r organ. Cyfranwyd eitemau lawer gan yr aelodau at y Banc Bwyd ym Mhenparcau, a phwy oedd yn ein disgwyl i dderbyn ein cyfraniadau ond priod Dr. Rhidian Griffiths, Catherine. Gwerthfawrogwyd ein hymdrech fel Eglwys yn fawr.

**Cydymdeimlad**
Cydymdeimlwn yn ddiffuant â theulu Ty'n Llan, wrth i'r newyddion ddod i law am farwolaeth chwaer Catrin, sef Gwenllian oedd yn byw yng Nghaerdydd. Roeddem yn gyfarwydd a gweld Gwenllian, fel actores, a'i phriod Iwcs (Iwcs a Doil) ar y teledu o dro i dro. Mae ei cholli ym mlodau ei dyddiau yn ergyd drom i'r teulu cyfan. Yn meddwl amdanoch ac yn eich cofio yn ein gweddiau.

**Merched y Wawr**
Dechrau mis Hydref treuliodd aelodau Merched y Wawr brynhawn hyfryd yn Llannerchaeron. Ar ôl cinio ysgafn aethom am dro o amgylch y tŷ hynafol. Roedd yn ddiddorol iawn i weld yr hen gelfi ac i ddysgu fel y mae y gwirfoddolwyr yn cadw popeth mewn cyflwr ardderchog. Roedd y tywydd yn braf iawn a chafwyd taith bleserus o amgylch y gerddi. Roedd arddangosfa afalau yn arddangos dros gant o wahanol fath o afalau. Prynhawn diddorol iawn a diolch i swyddogion am drefnu taith mor ddiddorol.

Prynhawn Mawrth cyntaf ym mis Tachwedd cawsom brynhawn yn gwneud addurniadau





Nadolig o dan ofal un o'r aelodau Jan Armstrong. Llwyddodd pawb i greu addurn a mi roedd yn brynhawn hamddenol a hyfryd iawn. Cafwyd cwpanaid o de wedi ei baratoi gan Eleanor a Heulwen. Diolchodd Nia yn fawr i Jan am ei gwaith yn paratoi ac yn rheoli y Prynhawn! Edrychwn ymlaen at ein cinio Nadolig yn y Ffarmers dechrau mis Rhagfyr.



## Aber-ffrwd a Chwmrheidol

**Cydymdeimlad**
Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â Dei a Nancy Evans, Tŷ poeth, ar farwolaeth Brenda, chwaer Nancy.Treuliodd Brenda a Wil ei gŵr nifer o flynyddoedd yng Nghartref Cysgod y Coed, Llanilar. Cofiwn yn arbennig am Wil yn ystod yr amser anodd yma. Hoffai Dei a Nancy ddiolch yn fawr am y cardiau, blodau a phob arwydd o gydymdeimlad yn ystod yr wythnosau yma. Dymuniadau gorau i Dei a Nancy a fydd yn dathlu eu priodas ddiemwnt ar y 26ain o fis Tachwedd.

**Urdd y Gymuned**
Cafwyd noson hwyliog iawn yn paratoi rhithiau Nadolig o dan ofal Alice Briggs. Daeth deuddeg o aelodau i Ganolfan Statkraft, ac mi roedd yn bleser gweld y gwaith gorffenedig!. Diolch i Alice am y gwaith paratoi, ymlaen nawr i Barti Nadolig ym mis Rhagfyr.

**Ras hwyl**
Dechrau mis Hydref roedd Cwmrheidol yn brysur iawn yn cynnal ras hwyl flynyddol Ysgol Pen-llwyn. Bu nifer o bob oed yn cymryd rhan a llwyddwyd i godi mil o bunnau i Ysgol Pen-llwyn.

**GWASANAETH GARDDIO MYNACH**

**Torri Porfa, Sietynau, Tirlinio a Garddio**
Gwasanaeth cyfeillgar a phrisiau rhesymol

**Ffoniwch Meirion:**
07792 457816
01974 261758

**e-bost:** mynachhandyman @yahoo.com

## Cylch Cinio

Ar noson stormus o Dachwedd doedd dim arwydd bod Storm Claudia yn mynd i dawelu hwyl a brwdfrydedd aelodau Cylch Cinio Aberystwyth. Roedd yn braf bod nôl adre yn ein cartref ysbrydol, yng ngwesty'r Richmond ar y Prom a'r bwyd a'r croeso gan Richard a'i staff mor wych ag erioed.

Roedd nifer fawr yr aelodau oedd wedi ymgynnull ar noson mor arw yn adlewyrchu poblogrwyd y gŵr gwadd, y Cyn-Aelod Seneddol Elfyn Llwyd. Yn fab i blismon cafodd ei fagu yn Nyffryn Conwy ac Ynys Môn a graddiodd yn y Gyfraith ym Mhrifysgol Aberystwyth. Yn wir, treuliodd ei oes yn ymhel â byd y gyfraith a chafodd yrfa ddisglair fel cyfreithiwr a bargyfreithiwr. Ac yntau yn gyn-fyfyriwr mae ef bellach yn Ddirprwy Ganghellor ar Brifysgol Aberystwyth ac yn fawr iawn ei awydd a'i gonsyrn i ddiogelu dyfodol y sefydliad yn wyneb y toriadau llethol ar gyllid y Prifysgolion.

Cafodd Elfyn ei ethol yn Aelod Seneddol i San Steffan dros etholaeth Meirionnydd (ychwanegwyd Dwyfor yn ddiweddarach)



Y gwleidydd a'r bargyfreithwr - Elfyn Llwyd oedd gŵr gwadd Cylch Cinio Aberystwyth yn ein cyfarfod ym mis Tachwedd. Hefyd yn y llun mae'r Cadeirydd Cynog Dafis, y Trysorydd Dickywyn Davies a'r Cynghorydd Gareth Davies.

yn olynydd i Dafydd Elis Thomas a bu'n llais cryf a chadarn dros ei etholwyr am gyfnod o 23 mlynedd. Bu yntau a'n Cadeirydd Cynog Dafis yn cyd-eistedd am gyfnod ar feinciau San Steffan ac wrth ei gyflwyno cyfeiriodd Cynog at Elfyn fel AS brwdfrydig a chydwybodol a phoblogaidd. Roedd yn uchel iawn ei barch ar draws y pleidiau a'i sylw at drylwyredd a manylder yn eithriadol.

Canolbwyntio yn bennaf ar ei gyfnod yn San Steffan wnaeth Elfyn yn ei anerchiad. Roedd wedi dal ei gynulleidfa yng nghledr ei law gydag un stori ar ôl y llall am ei ymwneud ag achosion a phersonoliaethau ac enwau cyfarwydd, yn ogystal ac ambell un arall, ar y llwyfannau gwleidyddol - yn Arlywyddion, Prifweinidogion, Gweinidogion, ymgyrchwyr ac aelodau cyffredin. Mae ganddo'r ddawn, y cynhesrwydd yn ei bersonoliaeth a'r carisma i ennill pobol ato ar bob lefel.

Wrth ddiolch iddo dywedodd y Cynghorydd Gareth Davies Llanbadarn ein bod wedi cael y fraint o dreulio noson yng nghwmni dau o gewri gwleidyddol Cymru a diolchodd iddynt am eu gwaith diflino dros bobl Cymru ac am chwifio baner Cymru yn San Steffan. Diolchodd yn arbennig i Elfyn am rannu ei brofiadau mewn ffordd mor ddifyr.

Cyfeiriodd Cynog Dafis at absenoldeb Gwynfryn Evans, Llandre sydd yn ysbyty Bronglais a dymunwyd adferiad llwyr a buan iddo. Dymunwyd yn dda hefyd i Rees Thomas, Bow Street sydd ar fin derbyn llawdriniaeth yn Ysbyty Treforys.nEnillwyd y raffl gan Yr Athro Wyn Jones.

Bydd ein cyfarfod nesaf ar nos Wener Rhagfyr 12fed yng ngwesty'r Richmond. Beth am ddod yn aelod?

**BRIDGE HOUSE CLEARANCE**

Gardd neu Sied – Gwaredu Ysbwriel
Cartrefi a Busnesau
Trwydded i Gludo Gwastraff
Gwerthu eich ty? Gallwn ei glirio
Yswiriant llawn, Pris am ddim

f 07792457816/01974 261758

YTincer@googlemail.com

## Ysgol **Penweddig**




Ar Dachwedd 6ed croesawyd tri o ddisgyblion gwreiddiol Penweddig yn y gwasanaeth. Bu Mair, Sheila a Penri yn ateb nifer o gwestiynau gan y swyddogion am ddyddiau cynnar Penweddig gyda 160 o ddisgyblion nôl ym 1973.

## Ysgol Gymunedol **Penrhyn-coch**

**Diwrnod T Llew Jones**
I ddathlu un o awduron gorau Cymru, bu Dosbarth Trafle (Bl 4 a 5) yn gwrando ar y gerdd *Dawns y Dail* ac yn cyd-lefaru pennill gyntaf yn ein gwasanaeth ysgol. Hefyd, fe wnaethom greu posteri proffil am T Llew Jones mewn gwers Adobe byw.

**Parti Calan Gaeaf y PTA**
Roedd gwisgoedd anhygoel a pharti llawn hwyl yn Neuadd y Penrhyn ar nos Wener olaf yr hanner tymor. Diolch o galon i'r Gymdeithas Rhieni am eu gwaith caled!

## 'Gyda'n gilydd gallwn lwyddo'

**Llywodraethwyr**
Mae newidiadau wedi digwydd ymhlith ein llywodraethwyr. Diolch o galon i Sarah Hughes a Rob Mills am eu cyfraniadau gwerthfawr yn ystod eu cyfnod fel llywodraethwyr. Rydym bellach yn hysbysebu ar gyfer rhiant-lywodraethwr ar safle Penrhyn-coch ac llywodraethwr cymunedol ym Mhen-llwyn.

**Diwrnod Coch, Gwyn a Gwyrdd & Diwrnod Shwmae / Su'mae**
Roedd yr ysgol yn fwrlwm ar Hydref 15fed wrth i ni ddathlu Diwrnod Shwmae / Su'mae. Daeth Mistar Urdd i'n cyfarch gyda "Shwmae!" gan ychwanegu at yr hwyl ar ein Diwrnod Coch, Gwyn a Gwyrdd. Diolch i bawb am wisgo'n lliwgar a dangos balchder Cymreig!

**Cawl Pwmpen**
Diolch arbennig i Bwmpenni Pendre am ddarparu pwmpenni i ddisgyblion Dosbarth Syfrdin a Llywernog, a greodd gawl blasus – profiad gwych i bawb!

**Cogurdd a Poburdd**
Llongyfarchiadau i bawb a gymerodd ran yn rownd yr ysgol o Cogurdd a Poburdd. Pob lwc i Nico ac Erin fydd yn cynrychioli Ysgol Penrhyn-coch ac Ysgol Pen-llwyn yn y rownd nesaf.

**Gwasanaethau Arbennig**
Diolch i Luna a Ffion (Penrhyn-coch) ac Erin, Flo Megan ac Owain (Pen-llwyn) am eu gwaith yn arwain gwasanaethau ar wisg ysgol, gan gynnwys mater mis Comisiynydd Plant Cymru a gwasanaeth gwrth-fwlio. Diolch hefyd i'r gwasanaeth gofalwyr ifanc am gyflwyno'r gefnogaeth sydd ar gael i'n disgyblion.

**Ffair Lyfrau Scholastic**
Roedd hi'n braf gweld cyffro tuag at ddarllen yn ystod ein ffair lyfrau. Diolch i staff a rhieni am eu cefnogaeth – roedd y neuadd yn llawn brwdfrydedd bob prynhawn!

**Amnewid Cotiau Gaeaf**
Diolch i bawb a gyfrannodd cotiau ar gyfer ein digwyddiad cyfnewid cotiau glaw yn ystod noson rhieni. Gwych gweld pawb yn cyfrannu at ailgylchu ac arbed adnoddau.

**Cyngerdd Nadolig**
Rydym yn edrych ymlaen at gynnal ein cyngerdd Nadolig cyntaf ar y cyd gyda disgyblion Penrhyn-coch a Phen-llwyn. Dewch i Ysgol Penweddig ar Nos Fawrth, Rhagfyr 9fed am 5.30pm. Tocynnau ar gael o flaen llaw drwy'r naill ysgol.







## Ysgol **Pen-llwyn**

**Ras Hwyl Rheidol**
Diolch i bawb a gymerodd ran yn y ras yng Nghwm Rheidol, a hefyd i'r trefnwyr a'r rhai a gyfrannodd.

*Cyfarwyddwyr Angladdau*
***C. T. Evans***

***Perchnogion : Gwyn & Janet Evans***
***Brongenau, Llandre, Aberystwyth SY24 5BS***

*Gwasanaeth Angladdol Teuluol Cyflawn.*
*Wedi ei arwain yn Bersonol gyda Urddas.*
*Capel Gorffwys Preifat,Gwasanaeth Dydd a Nôs.*

***Ffôn 01970 820013***
***ebost : gwyn@ ct-evans.com***

ADWEITHEG
**Bethan Ifan**
Aberystwyth
**07375422608**
**Tocynnau rhodd ar gael**

COPI CYWIR
GWAITH PRYDLON A CHYWIR
PRISIAU CYSTADLEUOL
IONA BAILEY
PEN-Y-BRYN
SWYDDFFYNNON
YSTRAD MEURIG
01974 831580

**Hoffech chi hysbysebu eich busnes yma?**

# Ysgol **Rhydypennau**

**Diolchgarwch**
Cynhaliwyd ein Diolchgarwch eleni ar y 22ain o Hydref yn Eglwys Llandre. Yno, ymysg y plant a staff yr ysgol, ymunodd nifer o drigolion y gymuned â ni. Yn ystod y gwasanaeth fe gyflwynodd plant blwyddyn 6 neges y Diolchgarwch a throsglwyddo gwybodaeth am ein helusen eleni sef Ambiwlans Awyr Cymru.

Hoffai'r ysgol ddiolch o galon i'r Parchedig Lynn Rees am y croeso a'i eiriau caredig a chan diolch hefyd i'r cyfraniadau hael a dderbyniwyd. Falch cyhoeddi y codwyd £181 tuag at yr elusen.





## Coginio

Da iawn i bawb fu'n cystadlu yng nghystadleuaeth 'Cogurdd' a chystadleuaeth 'Poburdd' yn ddiweddar. Eleni tasg y plant yng nghystadleuaeth 'Cogurdd' oedd cyflwyno brechdan agored. A thasg y plant yng nghystadleuaeth 'Poburdd' oedd cyflwyno cacen dathlu ger bron y beirniad.

Ar ddiwedd dwy ornest wych enillydd cystadleuaeth 'Cogurdd' oedd Elinor o flwyddyn 6 ac enillydd 'Poburdd' oedd Carian o flwyddyn 5. Da iawn i Isla o flwyddyn 5 am ddod yn ail ac i Leusa o flwyddyn 4 am ddod yn drydydd.







**Dathlu**
Er mwyn dathlu gŵyl Diwali, mi fuodd plant y Meithrin yn coginio bisgedi. Blasus iawn!

**Cardiau Nadolig**
Rydym wedi bod yn brysur yn dylunio cardiau yn barod ar gyfer y Nadolig. Mae'r archebion eisoes wedi eu danfon ac yr ydym yn awyddus i'w derbyn yn ôl cyn hir.

*Bancydarren, Capel Dewi, Capel Madog, Cefn-llwyd, Cwmerfyn, Cwmsymlog, Llwyn-prysg, Penrhiwnewydd, Pen-bont Rhydybeddau, Penrhyn-coch, Salem*

**Gwefan Cymuned Trefeurig**

Cyfeiriad newydd

**trefeurig.cymru@gmail.com**

- Newyddion diweddaraf
- Hanes a hen luniau
- Cyngor Cymuned
- Mudiadau
- Y Tincer

Gwefan Trefeurig Website    Trefeurig8






**Dathlu Diwrnod Coch, Gwyn a Gwyrdd.**
Rhai dyddiau cyn toriad hanner tymor, fe ddathlwyd 'Diwrnod Coch, Gwyn a Gwyrdd' er mwyn hyrwyddo'r Gymraeg a chodi arian tuag at Urdd Gobaith Cymru. Felly, cafodd y plant gyfle i ddod i'r ysgol wedi gwisgo mewn dillad lliwiau'r Urdd. I ychwanegu at holl firi'r achlysur, cafwyd ymweliad arbennig iawn wrth i Mr Urdd ei hun ddod i'n plith. Roedd y plant yn llawn cyffro.

**Am fwy o wybodaeth a llwyth o luniau: http://rhydypennau.ceredigion.sch.uk/ @YGRhydypennau-dilynwch ni ar drydar.**

# Ysgol **Craig yr Wylfa**






















**Diwrnod Coch, Gwyn a Gwyrdd**
Ar y 15fed o Hydref roedd diwrnod ‘Shwmae Sumae’ lle buodd y plant yn mwynhau gweithgareddau i ddathlu ein Cymreictod. Gwisgodd y plant mewn lliwiau coch, gwyn a gwyrdd a buon yn canu ‘Hei Mistar Urdd’ gydag ymwelydd arbennig – Mistar Urdd ei hun!

**Hawliau plant – creu ynysoedd delfrydol**
Yn nosbarth Dyfi mae’r dysgwyr wedi bod yn trafod tipyn am hawliau plant ar ôl mynychu gwasanaeth arbennig gyda Chomisiynydd Plant Cymru, Rocio Cifuentes. Aeth y plant ati i ddylunio ‘Ynys Ddelfrydol’ gan nodi pa hawliau sydd bwysicaf iddyn nhw.

**Creu Stori Seren a Sbarc**
Buodd plant dosbarth Leri yn brysur iawn yn cydweithio gydag Ysgolion Tal-y-bont a Rhydypennau yn meddwl am syniadau ac ysgrifennu stori ar gyfer cymeriadau Seren a Sbarc mewn cyfarfodydd rhithiol. Yna, aethant ati i berfformio eu stori i’r Ysgolion arall!

**Cymreictod – Pwyllgor yn cwrdd â Haf ap Robert**
Fel un o brif dargedau’r ysgol, mae ffocws wedi bod ar sut i hybu Cymreictod o fewn yr Ysgol ac yn y gymuned. Ar ddechrau’r hanner tymor newydd, bu’r pwyllgor ‘Cewri Cymraeg’ yn cyfarfod gyda llywodraethwr sydd am helpu i ddatblygu’r targed hyn o fewn yr Ysgol, Haf ap Robert. Roedd y cyfarfod yn llawn syniadau da, ac mae’r plant yn disgwyl ymlaen i roi y rhain ar waith!

**Diogelwch noson tân gwyllt / o gwmpas tân**
Ar y 5ed o Dachwedd, buodd plant yr ysgol yn llawn cyffro wrth baratoi tuag at noson tân gwyllt. Yn ystod sesiwn Ysgol y Goedwig buom yn trafod pa reolau sydd yn bwysig i gofio er mwyn cadw yn ddiogel wrth drin tân, a llwyddodd y plant i greu tân diogel eu hunain cyn rhostio malws melys arno!

**Cwrdd diolchgarwch**
Bu cwrdd diolchgarwch blynyddol yr ysgol ar y 6ed o Dachwedd. Ymarferodd y plant yn frwd wrth baratoi caneuon a sgript i berffomio o flaen cynulleidfa o’r gymuned. Bu’r plant yn trafod y pethau sydd yn bwysig iddyn nhw i ddiolch amdanynt, a mwynhawyd trafodaeth gyda’r Parchedig Andrew Loat.

# Tasg y Tincer


Helô bawb! Wnaethoch chi gofio newid pob cloc ar 25 Hydref? Mae'n hawdd anghofio am ambell un, ond roedd cael awr arall yn y gwely fore Sul yn hyfryd. Gobeithio na wnaethoch chi godi gormod o ofn ar eich ffrindiau ar nos Galan Gaeaf!


Cadi

Diolch i chi am liwio'r llun y tro diwetha: Owen Robin Jones, Ysgol Rhydypennau, Bow Street; Bonnie Evans, Bow Street; Steffan Jones, Caerffili; Dewi Barclay Jenkins, Capel Bangor; Elsi Wyn Lewis, Capel Bangor; Enfys Marged Mitchell, Bow Street.
Dy enw di, **Bonnie**, ddaeth o'r het bwmpen yn gyntaf – Hwrê a llongyfarchiadau mawr!

Ydych chi wedi bod yn ffair Aberystwyth? Mae angen bod yn ddewr iawn i fynd ar ambell un o'r reids – cael eich lluchio i fyny tuag at awyr y nos, ac yna plymio'n syth i lawr tua'r ddaear! Dwi'n mwynhau'r holl synau, arogleuon a lliwiau.

Ers pryd mae'r ffair wedi bod yn dod i Aberystwyth? Wel, gwnaeth y brenin roi'r hawl i'r dref i gael ffair yn 1277, dros 700 mlynedd yn ôl. Marchnad anifeiliaid oedd y ffair amser hynny, cyn bod sôn am gandi-fflos a cheir clatsio! A byddai gweision a morynion yn dod i chwilio am waith, gan obeithio dal sylw ffermwyr cyfoethog yr ardal.



Enw

Cyfeiriad

Ysgol

Rhif ffôn    Oed

Olwyn fawr y ffair yw'r llun i'w liwio y mis hwn – ac mae gwobr hyfryd i'r enw cyntaf o'r het! Anfonwch eich gwaith at y cyfeiriad arferol: Tasg y Tincer, 3 Brynmeillion, Bow Street, Ceredigion SY24 5BP, neu ei ebostio (anwenmai@hotmail.co.uk) erbyn 10 Rhagfyr.
Ta ta tan toc, a chadwch yn glyd!

ISSN 0963-925X

9 770963 925009

*Rhif 483 | Tachwedd 2025*